Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

LLAWLYFR RHAGLEN ASTUDIO

Lefel 6

Tystysgrif Raddedig Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol
Modiwl: BMPF6044

Disgyblaeth Academaidd: Busnes
(Fframwaith Arfer Proffesiynol)

Athrofa Rheolaeth ac Iechyd / Porth Agored

2025-26

GWYBODAETH BERSONOL

Enw:

Rhif y Dysgwr:

Cyfrinair Moodle:

Mae'n bwysig cadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Bydd yn rhoi mynediad i chi i amrywiaeth o ddeunydd dysgu. Mae'n hanfodol eich bod yn defnyddio'r deunydd hwn trwy gydol eich cyfnod astudio.

Modiwl:

BMPF6044C: Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

CYNNWYS

Rhif Tud

CYFLWYNIAD 1

ADBORTH 1

RHAGLENNI ASTUDIO A RHEOLWYR RHAGLENNI 2

CYMORTH YN YSTOD EICH ASTUDIAETHAU 2

ARHOLWYR ALLANOL 3

BLWYDDYN ACADEMAIDD 2025/26 4

Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) – MANYLACH 5

GEIRFA FODWLAR 6

ASESU 6

- Amgylchiadau Esgusodol 6
- Anghenion Ychwanegol o ran asesu 6
- Apeliadau Academaidd 7
- Rheoliadau Asesu 7
- Cyfrifoldebau myfyrwyr mewn perthynas â'r broses asesu 7

AMGYLCHEDD DYSGU RHITHWIR (ADRh) 7

RHAGLENNI ASTUDIO 10

- (1) Tystysgrif Raddedig Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol 10

POLISI YMGYSYLLTU'R BRIFYSGOL 21

CODAU YMDDYGIAD 21

YNGLŶN AG UNIONDEB ACADEMAIDD 22

Y LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU 24

CREADIGRWYDD A DYSGU DIGIDOL 25

DARPARU GWASANAETH TG 26

GWASANAETHAU MYFYRWYR 27

SGILIAU ASTUDIO 27

CWYNION 28

GWYBODAETH YCHWANEGOL I FYFYRWYR AR TYSTYSGRIF RADDEDIG CADARNHAU YMARFER GWAITH CYMDEITHASOL 29

Strwythur y Cymhwyster.....30

Graddfeydd Amser 30

Y Ganolfan Adnoddau Dysgu 30

Adnoddau Awdurdodau Lleol.....31

MEINI PRAWF MARCIO PENODOL - BMPF6044C.....34

Y PORTFFOLIO – NODIADAU A CHANLLAWIAU.....47

CANLLAWIAU AR Y PORTFFOLIO 49

GWEITHDAI CADARNHAU:.....50

ATODIAD 1: 55

ATODIAD 2: 56

ATODIAD 3: 57

ATODIAD 4 58

ATODIAD 5: 67

NODYN BWYSIG YNGHYLCH DIWEDDARIADAU I ADNODDAU 73

CYFLWYNIAD

Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am eich Rhaglen Astudio ym mlwyddyn academaidd 2025/26. Cyflwynir disgrifiadau'r modylau yn y Cyfeirlyfr Modylau sy'n mynd gyda'r ddogfen hon.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth mor lawn a chywir â phosibl, ond dylech nodi ei bod yn anochel y bydd rhai mân newidiadau yn digwydd i drefniadaeth y modylau rhwng y cyfnod cynllunio ac amser addysgu'r modylau. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd cyn lleied o newidiadau â phosibl, ac fe gewch ddigon o rybudd o flaen llaw os bydd unrhyw newid.

ADBORTH

Mae adborth ynglŷn â'ch rhaglen astudio a'ch modylau yn bwysig a byddwn yn ei groesawu gan y bydd yn ein helpu i wella a chyfoethogi'ch profiad dysgu. Gallwch roi adborth mewn nifer o ffyrdd: trwy gynrychiolydd academaidd eich rhaglen astudio, trwy holiaduron gwerthuso modylau, trwy gyfarfodydd anffurfiol gyda'ch tiwtor cymorth academaidd, staff addysgu, neu Reolwr Rhaglen, trwy grwpiau ffocws i gael adborth gan fyfyrwyr ar faterion penodol, neu drwy Undeb y Myfyrwyr. Os oes unrhyw broblemau, yna mae'n bwysig eich bod yn eu rhannu gyda ni fel y gallwn fynd i'r afael â nhw. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau defnyddiol y gallem eu gwneud i'r llawlyfr yn y dyfodol. Mae eich barn yn werthfawr i ni.

RHAGLENNI ASTUDIO A RHEOLWYR RHAGLENNI

Bydd yr aelodau staff canlynol yn cefnogi eich Rhaglen Astudio:

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Sarah Loxdale: s.loxdale@uwtsd.ac.uk (Rheolwr Rhaglen ac Uwch Ddarlithydd, Busnes (Fframwaith Arfer Proffesiynol)
Ann Beaumont: a.beaumont@uwtsd.ac.uk (Arweinydd gweinyddol swyddfa'r Athrofa ar gyfer y rhaglen astudio).

Porth Agored

Y Rheolwyr Hyfforddi/Rheolwyr/Cydgysylltydd Datblygu'r Gweithlu ym mhob Awdurdod Lleol yw eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y rhaglen fel y dangosir yn Atodiad 3.

CYMORTH YN YSTOD EICH ASTUDIAETHAU

Mentor y gweithle fydd y tiwtor personol ar gyfer y modiwl. Hefyd, bydd aelod o staff PCYDDS yn cael ei nodi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i weithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion cymorth. Gellir cael rhagor o gymorth hefyd drwy'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr.

ARHOLWYR ALLANOL

Mae gan bob Rhaglen Astudio a addysgir sy'n arwain at ddyfarniad gan y Brifysgol o leiaf un Arholwr Allanol. Prif ddibenion system arholwyr allanol y Brifysgol yw sicrhau bod:

- safon pob dyfarniad yn cael ei chynnal ar y lefel briodol;
- safonau perfformiad myfyrwyr yn cymharu â safonau ar raglenni neu bynciau tebyg mewn sefydliadau eraill yn y DU y maent yn gyfarwydd â hwy;
- y prosesau ar gyfer asesu a phennu dyfarniadau'n rhai cadarn ac yn cael eu gweithredu'n deg.

Gall myfyrwyr ofyn am gopi o Adroddiad Arholwr Allanol eu rhaglen astudio ar gyfer y flwyddyn flaenorol trwy gysylltu â'r Rheolwr Rhaglen.

Yr Arholwyr Allanol presennol ar gyfer y Rhaglenni Astudio yw:

Rhaglen Astudio	**Arholwr Allanol 2025/26 (enw cyntaf/cyfenw)**	**Arholwr Allanol 2024/25 (os yn wahanol i'r un presennol)**
Tystysgrif Raddedig Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	Mrs Wendy Roberts	n/a

Sylwer na chaniateir i fyfyrwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r Arholwyr Allanol heb ganiatâd ac os gwneir hynny, gellid ei hystyried yn drosedd ddisgyblu.

BLWYDDYN ACADEMAIDD 2025/26

Rhennir blwyddyn academaidd 2025/26 fel a ganlyn:

Ymsefydlu Carfan 26: Hydref 2025

Ymsefydlu Carfan 27: Chwefror 2026

Semestr 1 (Hydred) Bwrdd Arholi: 11 Rhagfyr 2025

Semestr 2 (Haf) Bwrdd Arholi: 30 Ebrill 2025

GWYBODAETH AMDANOCH CHI A'CH RHAGLEN ASTUDIO

Mae'r Brifysgol yn cadw gwybodaeth amdanoch chi a'ch rhaglen astudio ar System Cofnodion Myfyrwyr ganolog a reolir gan Gofrestrfa'r Brifysgol. Mae'n hanfodol bod gan Gofrestrfa'r Brifysgol gofnod cywir o'ch manylion personol bob amser. Mae hefyd yr un mor bwysig sicrhau eich bod wedi cofrestru ar y Rhaglen Astudio gywir ac ar y modylau cywir a'ch bod yn darllen y Cytundeb Cofrestru ac yn cytuno iddo.

Fy Nghofnod Myfyriwr / MyTSD

Gallwch weld eich manylion personol ar MyTSD a gwneud ceisiadau i ddiwygio'r data pan fydd eich amgylchiadau'n newid. Mae'n bwysig cadw eich manylion personol yn gyfredol. Gallwch ddefnyddio MyTSD i:

- gofrestru ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd (sylwch gan fod eich rhaglen astudio yn cael ei chyflwyno dros blynyddoedd academaidd, bydd angen i chi ail gofrestru pan gewch eich cynghori i'w wneud hynny.)
- creu llythyr 'Cadarnhad cofrestru'
- creu llythyr eithrio rhag talu'r dreth gyngor a/neu lythyr banc
- gweld manylion cofrestru gyda'r brifysgol ac ar fodylau
- newid eich cyfeiriad
- gwirio eich gwybodaeth ariannol (e.e. ffioedd i'w talu)
- cyflwyno cais i newid rhaglen
- gwneud cais am 'Amgylchiadau Esgusodol'
- gwirio eich canlyniadau modwl a phenderfyniad bwrdd arholi
- gwneud cais i dynnu'n ôl o'ch astudiaethau

Gall methu â chadw'ch manylion personol yn gyfredol arwain at nifer o broblemau, gan gynnwys:

- oedi o ran cael eich benthyciad myfyriwr;
- methu cysylltu â chi mewn argyfwng;
- methu benthyg deunyddiau o'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu;
- methu defnyddio gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth;
- diffyg cydymffurfio posibl â rheoliadau fisa.

Cymerwch amser i wirio eich manylion cofrestru ar MyTSD.

Cytundeb y Dysgwr

Yn dilyn cynefino, bydd angen i chi gwblhau cytundeb y dysgwr a bydd angen i'ch rheolwr llinell ei arwyddo. Bydd angen anfon y ddogfen at eich Cydlynydd Hyfforddi o fewn 4 wythnos o fynychu'r sesiwn gynefino.

Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) – MANYLACH

Er bod y rhaglen yn cynnwys cyswllt uniongyrchol â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed, mae'r holl ofynion mewn perthynas â gwiriad DBS (Manylach) yn cael eu rheoli gan eich Awdurdod Lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Fel rhan o weithdrefnau pob rhaglen yng nghyswllt y DBS, fel arfer bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n parhau â'u cwrs roi gwybod i'w Rheolwr Rhaglen ar unwaith am unrhyw newid i'w statws o ran collfarnau troseddol.

Gofynnir ichi gwblhau hunan ddatganiad ffurfiol yn ystod y cyfnod cofrestru ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, a fydd yn cadarnhau'ch statws o ran collfarnau troseddol. Cedwir y datganiad hwn o fewn y Gofrestrfa.

GEIRFA FODWLAR

Lefel (Astudiaeth):

Mae pob modwl ar lefel arbennig sy'n diffinio safon ei gynnwys academaidd yn unol â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cynnwys Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Nid yw'r lefel o reidrwydd yn gyfystyr â blwyddyn, er yn aml iawn bydd Lefel 4 yn golygu blwyddyn gyntaf Rhaglen Astudio, Lefel 5 yn golygu'r ail flwyddyn a Lefel 6 yn golygu'r drydedd flwyddyn. Mae nodweddion sylfaenol y lefelau astudio perthnasol wedi'u hamlinellu gan lywodraeth Cynulliad Cymru ac maent ar gael ar eu gwefan: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/disgrifyddion-lefel.pdf

ASESU

Ar ddechrau pob modwl, bydd y tiwtoriaid yn rhoi ar Moodle fanylion llawn am y modd y byddwch yn cael eich asesu yn y modwl hwnnw. Bydd yn cynnwys briff asesu llawn a chanllawiau am y meini prawf a ddefnyddir i farcio eich gwaith, ynghyd â gwybodaeth glir ynglŷn â dyddiadau cyflwyno'r asesiadau a'r amser a ganiateir ar gyfer rhoi adborth am yr asesiadau. Bydd hefyd yn rhoi manylion sut y gallwch drafod yr adborth am eich gwaith a'ch perfformiad a beth i'w wneud os oes gennych gwestiynau.

Mae angen cyflwyno'r holl waith cwrs ysgrifenedig a asesir ar ffurf copi electronig trwy Turnitin; bydd y Rheolwr Rhaglen yn darparu cyfarwyddiadau gwahanol ar gyfer unrhyw waith cwrs na ellir ei gyflwyno trwy Turnitin.

Mae'r Brifysgol yn cynnig rhaglenni yn Gymraeg a Saesneg. Y disgwyliad arferol yw y cewch eich asesu yn yr un iaith ag y cyflwynwyd y rhaglen neu'r modylau. Os ydych wedi cael eich addysgu yn Saesneg ac yn dymuno cael eich asesu yn Gymraeg, neu i'r gwrthwyneb, dylech ymgynghori â'ch Rheolwr Rhaglen am yr opsiynau sydd ar gael i chi.

Byddwch yn derbyn cadarnhad o'ch marciau asesu ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Bydd unrhyw farciau a ryddheir cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Arholi yn farciau amodol.

Amgylchiadau Esgusodol

Os ydych o'r farn y gallai amgylchiadau esgusodol fod wedi cael effaith niweidiol ar eich gallu i gwblhau gwaith cwrs neu arholiadau, dylech ddilyn gweithdrefnau'r Brifysgol o ran Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer Darpariaeth a Addysgir, sydd i'w gweld yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol ac sydd yn rhan o'r *Polisi Amgylchiadau Lliniarol:*
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/

Anghenion Ychwanegol o ran asesu

Os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol o ran asesu, eich cyfrifoldeb chi yw cydgysylltu â'r uned Gwasanaethau Myfyrwyr ynghylch yr anghenion hynny ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, fel y gellir drafftio Datganiad o Fesurau Cydadferol yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer asesu myfyrwyr ag anghenion ychwanegol.
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/cymorth-dysgu/

Apeliadau Academaidd
Darperir gwybodaeth am sut i apelio yn y 'Weithdrefn Apeliadau Academaidd' sydd yn rhan o'r *Polisi Apeliadau Academaidd* a gysylltir â Phennod 12 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac mewn dogfennaeth ategol a gyhoeddir yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/

Mae cyngor ychwanegol ar gael o Undeb y Myfyrwyr. Mae'n bwysig iawn eich bod yn nodi'n ofalus y rhesymau sy'n sail i apeliadau ac yn cyflwyno eich apêl ar y ffurflen briodol oherwydd ni ellir prosesu apeliadau anghyflawn neu anghymwys.

Rheoliadau Asesu
Mae'r rheolau a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig ag asesu eich Rhaglen Astudio ar gael ym Mhenodau 6 a 7 Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol, ac mae copi ohono ar gael yn adran y Swyddfa Academaidd ar y wefan:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/llawlyfr-ansawdd-academaidd/

Cyfrifoldebau myfyrwyr mewn perthynas â'r broses asesu
Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn:

i) Cael eich cofrestru'n gywir ar eich rhaglen astudio (gan gynnwys ailgofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd ar ôl y cofrestru cychwynnol).
ii) Darllen ac yn deall y wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â sut y byddwch yn cael eich asesu, sut y penderfynir ar eich dyfarniad terfynol, a'r camau i'w cymryd os byddwch yn cael anawsterau yn ymwneud ag asesu.
iii) Rhoi cynnig ar bob elfen asesu mewn modwl.
iv) Mynychu arholiadau a digwyddiadau asesu eraill, yn cynnwys digwyddiadau ailarholi ac ailasesu, yn ôl yr angen; a'ch bod ar gael i fynychu arholiadau llafar os oes angen o fewn dyddiadau'r tymhorau neu'r semestrau a gyhoeddwyd, neu ddyddiad arall y'ch hysbyswyd ohono ymlaen llaw.
v) Cyflwyno gwaith i'w asesu yn ôl yr angen ac yn unol â'r fformat a'r dyddiad cau gofynnol.
vi) Hysbysu eich Rheolwr Rhaglen neu'r uned Gwasanaethau Myfyrwyr o unrhyw anabledd neu nam tymor hir a allai olygu bod angen darpariaethau arbennig ar gyfer asesu.
vii) Ymgyfarwyddo â diffiniad y Brifysgol o gamymddwyn academaidd ac yn ymgymryd ag asesiadau mewn modd nad yw'n ceisio ennill mantais annheg.
viii) Dilyn y gweithdrefnau a nodwyd os ydych yn wynebu amgylchiadau esgusodol neu'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Arholi.
ix) Cadw copi o waith a gyflwynwyd i'w asesu lle bo hynny'n ymarferol.
x) Darparu eich gwaith ar gyfer samplu at ddibenion arholi allanol.

AMGYLCHEDD DYSGU RHITHWIR (ADRh)

Moodle yw Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh) y Brifysgol. Defnyddir yr ADRh i gefnogi dysgu ac addysgu. Gall myfyrwyr sydd wedi **cofrestru** gael mynediad iddo o unrhyw le yn y byd trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a phorwr gwe.

Mae rhai o nodweddion Moodle yn caniatáu i fyfyrwyr:

- Gael mynediad i ddeunyddiau cwrs
- Hwyluso cyfathrebu rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid – gall hyn ddigwydd hefyd drwy Microsoft Teams
- Cefnogi tasgau grŵp
- Cymryd asesiadau ar-lein gyda chyfleusterau marcio ac adborth awtomatig

Gellir defnyddio Moodle ar gyfer tasgau gweinyddu megis:

- Dangos cyhoeddiadau e.e. lleoliad darlith wedi newid
- Cyflwyno aseiniadau'n electronig
- Gweinyddu arolygon ar-lein, megis holiaduron modwl

Sut i gael mynediad iddo:

Cewch fynediad i Moodle mewn 3 ffordd wahanol:

1. O'r Hwb - Ewch i'ch dangosfwrdd naill ai drwy fewngofnodi i gyfrifiadur ar y campws ac agor y porwr Microsoft Edge, neu drwy fynd i https://hwb.uwtsd.ac.uk o unrhyw borwr ar ddyfais sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd. Cliciwch ar deilsen Moodle.
2. O Wefan y Brifysgol - Ewch i https://uwtsd.ac.uk/cy/ a dewis Cysylltiadau Cyflym (ochr chwith uchaf y sgrin) ac wedyn Moodle.
3. Teipio'r URL - Agorwch unrhyw borwr ar ddyfais sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd ac ewch i https://moodle.uwtsd.ac.uk

Os ydych chi'n defnyddio gliniadur gwaith i gael mynediad i Moodle bydd angen i chi agor tudalen we incognito neu ddefnyddio porwr gwe gwahanol. Rhannwyd nodiadau cyfarwyddyd gyda chi pan wnaethoch chi wneud cais am y rhaglen.

Os oes rhai o'ch modylau ar goll ar eich hafan Moodle cysylltwch â'ch **darlithwyr** i ofyn a ydynt yn defnyddio Moodle. Sylwer y gall gymryd 24 awr i ddata cofrestru gael ei fwydo i Moodle. Os cewch chi broblemau o ran dod o hyd i adnoddau (amserlenni, nodiadau darlith, manylion aseiniadau ac ati) cysylltwch â'r **darlithydd** sy'n darparu'r cwrs/modwl.

Os cewch chi unrhyw broblemau technegol neu negeseuon gwall cysylltwch â'r **Ddesg Wasanaeth TG** drwy:
Y we: https://webhelp.uwtsd.ac.uk
Ffôn: 0300 500 5055
Neu drwy e-bost: ITServiceDesk@uwtsd.ac.uk
Nodwch eich enw a'ch enw defnyddiwr (eich rhif myfyriwr) mewn unrhyw ohebiaeth, ynghyd â manylion eich problem, gan gynnwys cipluniau o negeseuon camgymeriad sy'n ymddangos.

Ceir rhagor o fanylion ynghylch defnyddio adnoddau ar-lein a digidol ar https://digitallearning.uwtsd.ac.uk/

ADBORTH ASESU TRWY TURNITIN

O ran adborth a ddarperir trwy Turnitin, ceir dwy adran sy'n cynnwys adborth ar eich gwaith: adborth ysgrifenedig, a'r gyfeireb farcio.

Bydd yr adborth ysgrifenedig yn rhoi sylwadau ar y gwaith yn gyffredinol.

Bydd y gyfeireb farcio'n canolbwyntio ar y modd mae'r darn o waith yn ateb y meini prawf a restrwyd yn y gyfeireb berthnasol.

Nid yw'r gyfeireb farcio'n rhoi canlyniad wedi'i gyfrifo'n fathemategol ar sail cyfanswm yr adrannau unigol, ond fe'i defnyddir yn gyfannol i helpu pennu'r marc.

Gellir dod o hyd i'r Adborth Ysgrifenedig a'r Gyfeireb Farcio trwy glicio ar y botymau a welir isod wrth i chi edrych ar yr aseiniad a gyflwynwyd gennych yn Turnitin.



RHAGLENNI ASTUDIO

(1) Tystysgrif Raddedig Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Er mwyn dilyn y rhaglen hon, rhaid i ymgeiswyr fod yn Weithiwyr Cymdeithasol cofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a gallu dangos tystiolaeth eu bod wedi cyflawni rôl Gweithiwr Cymdeithasol wrth gwblhau eu hastudiaethau. O 2016 ymlaen, mae'r Rhaglen Gadarnhau wedi'i chysylltu â'r dair blynedd gyntaf o ymarfer ac mae'n ofynnol ar gyfer y cyfnod cyntaf o ailgofrestru fel gweithiwr cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gall methu â chwblhau'r rhaglen o fewn 3 blynedd arwain at ddadgofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Deilliannau Dysgu Rhaglen

Mae'r deilliannau dysgu lefel 6 canlynol yn cydymffurfio â disgwyliadau Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yr ASA (2014) ac fe'u datblygwyd gan gyfeirio at feincnod pwnc yr ASA ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (2019) a'r Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gadarnhau. Mae'r deilliannau dysgu wedi eu categoreiddio yn y modd canlynol: sgiliau gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau gwybyddol/deallusol (CS), sgiliau ymarferol (PS) a sgiliau allweddol (KS).

Gwybodaeth a dealltwriaeth (KU)

Bydd graddedigion y rhaglen yn gallu:

KU1	Dangos dealltwriaeth systematig o agweddau allweddol ar wasanaethau gwaith cymdeithasol yn cynnwys caffael gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rhan ohoni yn arwain agweddau a ddiffiniwyd ar weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, neu'n cael ei hysbysu gan y wybodaeth arweiniol honno.

Caiff pob un o'r deilliannau dysgu rhaglen uchod sylw yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Sgiliau gwybyddol (meddwl) (CS)

Bydd graddedigion y rhaglen yn gallu:

CS1	Disgrifio a rhoi sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil cyfredol a deddfwriaeth o fewn ymarfer gofal cymdeithasol.
CS2	Llunio a chynnal dadleuon, a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio syniadau a thechnegau, y mae rhai ohonynt yn arwain ymarfer gofal cymdeithasol
CS3	Meddu ar ymwybyddiaeth o ansicrwydd, amwysedd a chyfyngiadau gwybodaeth
CS4	Rheoli eu dysgu eu hunain, a gwneud defnydd o adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol
CS5	Gwerthuso dadleuon, rhagdybiaethau, cysyniadau haniaethol a data'n feirniadol er mwyn gwneud dyfarniadau, a llunio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd datrysiad, neu ddynodi ystod o ddatrysiadau ar gyfer problem

Caiff pob un o'r deilliannau dysgu rhaglen uchod sylw yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Sgiliau ymarferol (PS)

Mae dyfarniadau gwaith cymdeithasol â chysylltiad cryf ag ymarfer ac felly maent yn darparu dolen glir rhwng datblygu sgiliau perthnasol a chyflogadwyedd graddedigion. Bydd graddedigion y rhaglen yn gallu:

PS1	Defnyddio technegau dadansoddi ac ymholi sefydledig yn fanwl gywir o fewn ymarfer gwaith cymdeithasol.
PS2	Cymhwyso'r dulliau a'r technegau maent wedi'u dysgu i adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i gychwyn a chyflawni'u rôl fel Gweithiwr Cymdeithasol
PS3	Cyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau a datrysiadau i ymarferwyr Gofal Cymdeithasol arbenigol a chynulleidfaoedd anarbenigol

Caiff pob un o'r deilliannau dysgu rhaglen uchod sylw yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Sgiliau allweddol (KS)

Bydd graddedigion y rhaglen yn gallu arddangos y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am y canlynol:

KS1	Arfer menter a chyfrifoldeb personol.
KS2	Gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.
KS3	Y gallu i ddysgu sydd ei angen i ymgymryd â hyfforddiant priodol pellach o fewn y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol.

Caiff pob un o'r deilliannau dysgu rhaglen uchod sylw yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gadarnhau (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2019)

Mae Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus: Fframwaith ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru (Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gadarnhau) (Chwefror 2019) Gofal Cymdeithasol Cymru, yn darparu gofynion diffiniol Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r *Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gadarnhau* fel a ganlyn:

Teitl	1. Dadansoddi wrth asesu er mwyn hysbysu ymyriadau
Deilliannau Dysgu Byddwch yn:	Meini Prawf Asesu: Gallwch chi!
1.1 Deall sut y mae fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chyfarwyddyd yn cael eu defnyddio'n sail i ymarfer asesu	1.1.1. Amlinellu'r fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chyfarwyddyd sy'n tanategu ymarfer asesu mewn gwaith cymdeithasol. 1.1.2. Gwerthuso'r berthynas rhwng ymarfer asesu a: • fframweithiau deddfwriaethol • safbwyntiau damcaniaethol • safonau • cyfarwyddyd a phrotocolau 1.1.3. Dadansoddi sut mae dulliau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yn dylanwadu ar ymarfer a phrosesau asesu 1.1.4. Dadansoddi sut mae eu hymarfer asesu yn cefnogi gwaith cymdeithasol seiliedig ar ddeilliannau
1.2 Gallu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac ar ddeilliannau i gynnal ystod o asesiadau i hyrwyddo a chefnogi llesiant	1.2.1 Gweithio'n holistaidd ac mewn partneriaeth gyda phobl er mwyn eu galluogi i ddynodi, egluro a mynegi'u cryfderau, eu hanghenion a'u deilliannau dymuno 1.2.2 Wrth gynnal asesiad, arddangos integreiddiad gwerthoedd gwaith cymdeithasol, y *Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol* a Chanllawiau Ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol 1.2.3 Cynnwys sensitifrwydd o ran diwylliant ac iaith yn eu hymarfer yn cynnwys y cynnig gweithredol mewn perthynas â'r Gymraeg 1.2.4 Gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn ymgymryd ag asesiad amlddisgyblaethol gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a deilliannau 1.2.5 Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a chanlyniadau i gynnal asesiad o: • cryfderau unigolyn; • anghenion unigolyn; • anghenion gofalwr; • eu hamgylchiadau; • risg a'i reolaeth bosib. 1.2.6 Cefnogi pobl i gymryd rhan wrth ddarganfod dulliau creadigol o: • adnabod deilliannau; • adeiladu ar gryfderau, galluoedd a chyraeddiadau; • dod i ddatrysiadau; • cyflawni newid;

	• hyrwyddo llesiant.
1.3 Gallu cofnodi gwybodaeth asesu yn sail i wneud penderfyniadau	1.3.1 Esbonio sut mae gwybodaeth wedi'i chofnodi'n cael ei defnyddio i gefnogi dadansoddi a gwneud penderfyniadau 1.3.2 Cynnal cofnodion ysgrifenedig ac electronig sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau cyfredol. 1.3.3. Dangos gallu i gwblhau cofnodion asesu cywir, argyhoeddiadol, cydlynol a dadansoddol 1.3.4 Dadansoddi'r canlyniadau posibl lle nad yw'r cofnodi'n gywir, argyhoeddiadol, cydlynol a dadansoddol
1.4 Gallu gwneud dyfarniadau proffesiynol yn seiliedig ar wybodaeth asesu	1.4.1 Dadansoddi ystod o wybodaeth asesu i hysbysu dyfarniadau proffesiynol 1.4.2 Arfer dyfarniad proffesiynol ynghylch safbwyntiau a dewisiadau unigolyn, eu hanghenion, cryfderau, risgiau a ffactorau amddiffynnol 1.4.3. Esbonio sut mae ystyriaethau moesegol yn llunio'i ddyfarniadau ei hun 1.4.4. Esbonio'r rhesymwaith ar gyfer ei ddyfarniadau proffesiynol ei hun. 1.4.5. Cyfiawnhau ei ddyfarniadau proffesiynol ei hun, sy'n cymryd ystyriaeth o: • safbwyntiau a dewisiadau unigolyn ag anghenion gofal a chymorth; • dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd; • dull sy'n ffocysu ar ddeilliannau. 1.4.6. Addasu'i ddyfarniad proffesiynol ei hun pan gyflwynir tystiolaeth newydd 1.4.7. Defnyddio tystiolaeth ymchwil wrth llunio dyfarniadau proffesiynol.
1.5 Gallu defnyddio adfyfyrio beirniadol i werthuso'i ddadansoddi'i hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol	1.5.1. Defnyddio adfyfyrio beirniadol i werthuso ymarfer dadansoddi personol mewn asesiadau gwaith cymdeithasol gan gynnwys: • gwneud llais yr unigolyn yn ganolog i'r asesu; Ymarfer seiliedig ar werth; • ffocws ar effaith a deilliannau ar gyfer yr unigolyn; • ymarfer moesegol yn cynnwys rheoli dilemâu moesegol; • hyrwyddo cyfartaledd ac amrywiaeth; • cefnogi dewis iaith; • cefnogi cyfathrebu; • y fframwaith deddfwriaethol, polisïau a gweithdrefnau mewn gwaith cymdeithasol; • gwybodaeth yng nghyd-destun pobl ag anghenion gofal a chymorth mewn maes gwaith; • y defnydd o dystiolaeth ymchwil perthnasol yn yr asesiad; • defnyddio goruchwylio a mentora i adnabod anghenion datblygu pellach; • asesiad risg; • sgiliau eraill a ddefnyddir wrth asesu; 1.5.2. Gwerthuso ymarfer dadansoddi personol mewn asesiadau gwaith cymdeithasol er mwyn dynodi'u cryfderau eu hun a'u meysydd ar gyfer dysgu a datblygu. 1.5.3. Llunio'u cynllun dysgu a datblygu proffesiynol eu hun
Cyfeirnod Safonau Gweithredol Cenedlaethol (SGC)	Safonau Gwaith Cymdeithasol SGC 2011 2 – Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwylio ac adfyfyrio 4 – Arfer dyfarniad proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol 5 – Rheoli materion moesegol, dilemâu a gwrthdaro

	7 – Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol mewn perthynas â phobl 12 – Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sy'n rhan ohono 15 – Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hyrwyddo annibyniaeth a chyfrifoldeb.
Diffinio telerau	- Mae fframweithiau deddfwriaethol yn cynnwys y ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd sydd gyda'i gilydd yn diffinio cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr cymdeithasol mewn perthynas â maes ymarfer - Dylai safonau gynnwys y Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (SCW, 2017) - Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys Y Gweithiwr Cymdeithasol – Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (SC2, 2019) - Ystyr ymarfer personol yw ymarfer yr ymgeisydd

Teitl	2. Gweithio'n gydweithredol gyda phobl sydd ag angen gofal a chymorth, eu gofalwyr gweithwyr a proffesiynol eraill
Deilliannau dysgu Byddwch yn:	Meini Prawf Asesu: Gall y dysgwr:
2.1 Gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl sydd ag angen gofal a chymorth a'u gofalwyr	2.1.1 Paratoi'n llawn i gynnwys gwaith cymdeithasol 2.1.2. Sefydlu cyd-gynhyrchiad a phartneriaeth yn sail i gyfathrebu effeithiol mewn ystod o wahanol amgylchiadau 2.1.3 Dangos defnydd o ddulliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau i ymgysylltu â phobl ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr 2.1.4 Ceisio cymorth pan fydd y dull cyfathrebu o ddewis y tu allan i allu'r gweithiwr 2.1.5 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n rhoi ystyriaeth i ddewis iaith a diwylliant 2.1.6 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n dangos parch tuag at oed, ethnigrwydd, diwylliant, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, crefydd neu gred, dealltwriaeth ac anghenion 2.1.7 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i helpu i reoli sefyllfaoedd lle ceir trallod, gelyniaeth neu wrthwynebiad 2.1.8 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i gadarnhau bod dymuniadau a dewisiadau unigolion a gofalwyr wedi'u deall 2.1.9 Adlewyrchu deilliannau, safbwyntiau, dewisiadau a theimladau llesiant unigolion a gofalwyr mewn cofnodion, gohebiaeth a chynlluniau 2.1.10 Disgrifio sut mae eu harferion cyfathrebu wedi newid a datblygu ers cymhwyso.
2.2 Gallu gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a gweithwyr proffesiynol eraill	2.2.1 Esbonio rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol gweithwyr proffesiynol eraill 2.2.2 Cyfathrebu mewn modd sy'n cefnogi a pharchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol 2.2.3 Dangos y gallu i weithio mewn partneriaeth â phobl ag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a chymunedau 2.2.4 Dangos parch at sgiliau, arbenigedd a chyfraniadau cydweithwyr yn eu sefydliad eu hunain a gyda gweithwyr proffesiynol eraill 2.2.5 Cynnal rôl a swyddogaeth gwaith cymdeithasol ac arfer dyfarniad annibynnol 2.2.6 Cymhwyso'r protocolau sy'n pennu rhannu gwybodaeth: • fewn eich sefydliad eich hun; • rhwng asiantaethau yng nghyd-destun gwaith amlasiantaethol.
2.3 Adfyfyrio'n feirniadol ar weithio cydweithredol	2.3.1 Adfyfyrio'n feirniadol ar eu perfformiad eu hun o ran gweithio cydweithredol, gan ddynodi meysydd ymarfer da a'r rheini i'w datblygu yn ystod gwaith gyda: • pobl gydag anghenion gofal a chymorth; • gofalwyr; • eiriolwyr; • cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.
Cyfeirnod Safonau Gweithredol Cenedlaethol (SGC)	Safonau Gwaith Cymdeithasol SGC 2011 6 – Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaeth 8 – Paratoi i gynnwys gwaith cymdeithasol 9 – Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

	10 – Cefnogi pobl i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau 11 – Eirioli ar ran pobl 12 – Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sy'n rhan ohono 15 – Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hyrwyddo annibyniaeth a chyfrifoldeb.
Diffinio telerau	Mae dulliau cyfathrebu'n cynnwys: • geiriol; • di-eiriau; • gwahanol ieithoedd; • defnydd o symbolau; • gohebiaeth ysgrifenedig. Gall cymunedau gynnwys: Grwpiau cymunedol neu sefydliadau ac eraill y mae'r unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu hystyried yn bwysig Gall gweithwyr proffesiynol eraill gynnwys: Gweithwyr proffesiynol meddygol, nyrsio ac iechyd perthynol i iechyd, plismyn, athrawon, cyfreithwyr, staff tai, eiriolwyr, gweithwyr gofal cymdeithasol neu weithwyr cymdeithasol eraill.

Teitl	3. Ymyriad a chymhwyso dyfarniad proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth
Deilliannau dysgu Byddwch yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
3.1. Deall y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chyfarwyddyd gyda darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru	3.1.1. Gwerthuso sut mae polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chyfarwyddyd yn sail i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys: • deddfwriaeth gyfredol perthnasol i faes gwasanaethau cymdeithasol; • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion; • diogelu data a rhannu gwybodaeth; • cydsyniad a datgelu. 3.1.2 Amlinellu'r rhyngwyneb rhwng y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn y canlynol: • gwledydd eraill y Deyrnas Unedig; • yr Undeb Ewropeaidd; • tu allan i'r UE.
3.2. Gallu rheoli'ch rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	3.2.1 Dynodi'r ffactorau a all gynyddu cymhlethdod mewn gwaith cymdeithasol 3.2.2. Gwerthuso sut y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, tystiolaeth ymchwil, modelau ar gyfer ymyrraeth, safonau a chyfarwyddyd i hysbysu'i ymarfer ei hun wrth ddelio â sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth. 3.2.3 Ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol o fewn ffiniau proffesiynol, cyfreithiol a sefydliadol mewn sefyllfa gymhleth 3.2.4 Dangos dyfalbarhad a phendantrwydd wrth ymyrryd mewn sefyllfa gymhleth 3.2.5 Cyd-drafod gydag eraill er mwyn dod i benderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth 3.2.6 Gwneud argymhellion a phenderfyniadau amserol yn unol â'i lefel bersonol o atebolrwydd mewn sefyllfa gymhleth 3.2.7 Gwneud cynlluniau wrth gefn i ragweld ac ymateb i amgylchiadau newidiol mewn sefyllfaoedd cymhleth 3.2.8 Defnyddio goruchwyliaeth a mentora i ystyried a rheoli ymyriadau a dyfarniadau proffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth 3.2.9 Adfyfyrio'n feirniadol ar ei berfformiad ei hun o fewn sefyllfaoedd cymhleth er mwyn: • dynodi meysydd ymarfer da • dynodi meysydd ymarfer sydd angen eu datblygu • datblygu a chryfhau gwydnwch personol.
3.3. Deall y rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol mewn perthynas â diogelu oedolion mewn perygl.	3.3.1 Esbonio'r polisïau a'r gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol mewn perthynas â diogelu oedolion. 3.3.2 Deall y fframwaith gyfreithiol sy'n perthnasu i ddiogelu oedolion 3.3.3 Dadansoddi'r ffactorau a allai ddynodi oedolyn mewn perygl o niwed, esgeulustod neu gam-drin. 3.3.4 Disgrifio dangosyddion niwed, esgeulustod neu gam-drin yn achos oedolion 3.3.5 Esbonio pwysigrwydd sefydlu'r canlyniadau a ffefrir yn sgil yr ymyriad diogelu ar gyfer: • pobl ag anghenion gofal a chymorth; • gofalwyr.

3.4. Deall y rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol mewn perthynas â diogelu plant mewn perygl	3.4.1 Esbonio'r polisïau a'r gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol mewn perthynas â diogelu plant mewn perygl 3.4.2 Deall y fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â diogelu plant mewn perygl 3.4.3 Dadansoddi'r ffactorau a allai ddynodi bod plentyn mewn perygl o niwed, esgeulustod neu gam-drin 3.4.4 Disgrifio dangosyddion niwed, esgeulustod neu gam-drin yn achos plant 3.4.5 Esbonio pwysigrwydd sefydlu'r canlyniadau a ffefrir yn sgil yr ymyriad diogelu ar gyfer plant, teuluoedd a gofalwyr gydag anghenion cymorth.
3.5. Gallu arfer y rôl waith cymdeithasol broffesiynol mewn ymyriadau diogelu	3.5.1 Ar y cyd ag eraill ymgymryd ag asesiad ynghylch diogelu naill ai oedolyn neu blentyn. Wrth wneud hynny maent yn: • gweithredu o fewn gofynion cyfreithiol, sefydliadol a phroffesiynol • cadw ffocws ar yr unigolyn sydd mewn perygl • arfer pendantrwydd proffesiynol wrth wneud penderfyniadau proffesiynol 3.5.2 Cyfrannu i gynllun cymorth ac ymyriad ar gyfer oedolyn neu blentyn 3.5.3 Cyfrannu i werthusiad ymyriadau diogelu.
3.6. Gallu cyfrannu i brosesau cyfreithiol o fewn cylch gwaith cymdeithasol proffesiynol	3.6.1 Esbonio rôl a chylch gwaith prosesau cyfreithiol mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant ac oedolion mewn risg 3.6.2 Dadansoddi rôl y gweithiwr cymdeithasol o fewn prosesau cyfreithiol mewn perthynas â: • plant; • oedolion. 3.6.3 Cyfrannu barn broffesiynol i asesiad mewn achos lle gall fod prosesau cyfreithiol 3.6.4 Cyfrannu barn broffesiynol i adroddiad a baratowyd ar gyfer prosesau cyfreithiol.
3.7. Gallu arfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	3.7.1 Crynhoi gofynion atebolrwydd proffesiynol i weithwyr cymdeithasol 3.7.2 Cymhwyso'r *Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol* a Chyfarwyddyd Ymarfer mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth 3.7.3 Defnyddio goruchwyliaeth a chyfarwyddyd i adfyfyrio'n feirniadol ar: • atebolrwydd proffesiynol; • datblygiad proffesiynol. 3.7.4 Cwblhau cofnodion ac adroddiadau cywir, argyhoeddiadol, cydlynol a dadansoddol ar gyfer ymyriadau gwaith cymdeithasol sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol 3.7.5 Dilyn gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau diogelwch personol yn y rôl broffesiynol
Diffinio termau	<u>Rhaid i fframweithiau deddfwriaethol gynnwys:</u> • Deddfwriaeth ynghylch darparu gwasanaethau cymdeithasol yn gysylltiedig â galluedd meddyliol, oedolion, plant a theuluoedd; • Deddf Hawliau Dynol; • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; • Deddfwriaeth ynghylch cydraddoldeb; • Iechyd a Diogelwch. <u>Dylai darparu gwasanaethau cymdeithasol gynnwys:</u> • maes penodol o waith cymdeithasol; • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion;

	• diogelu data a rhannu gwybodaeth; • cydsyniad a datgelu. Dylai safonau gynnwys: • y Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a'r Canllawiau Ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol <u>Bydd polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol yn cynnwys y canlynol:</u> • cyfarwyddyd cenedlaethol • polisïau a gweithdrefnau diogelu; • cyfrinachedd; • gwaith aml-asiantaethol; • cofnodi; • rhyddid gwybodaeth a diogelu data. <u>Mae Gydag Eraill yn golygu</u> gweithwyr proffesiynol eraill a fyddai'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol neu bobl eraill sy'n ymwneud ag asesiadau o ran diogelu. <u>Mae Prosesau Cyfreithiol yn cynnwys:</u> • prosesau a all arwain at achos llys neu achos cyfreithiol arall; • ymchwiliadau neu ymyraethau a gynhelir o fewn proses gyfreithiol a ddiffiniwyd (e.e. diogelu neu wasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl). • Mae atebolrwydd proffesiynol i'r canlynol: • y cyflogwr; • y Corff rheoleiddio; • pobl ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr • y tîm aml-ddisgyblaethol • gwaith cymdeithasol fel proffesiwn

Lefel 6

Rhaid i bob myfyriwr ar y Rhaglen hon astudio 60 credyd ar Lefel 6.

Strwythur y Rhaglen

Cyflwynir y rhaglen yn rhan-amser yn unig a chaiff ei chyflwyno drwy gyfuniad o weithdai a thrwy ddysgu seiliedig ar waith sy'n ymarferol a phroffesiynol. Mae wedi'i strwythuro ar fformat modwlar ac mae'r Dystysgrif Raddedig yn cynnwys un modwl 60 credyd sy'n cynnwys elfen orfodol o ddysgu seiliedig ar waith. Mae'r modiwl yn y dyfarniad hwn wedi'i ddynodi'n "Pass Cydran" sy'n golygu bod yn rhaid pasio pob cydran asesu i fyfyriwr dderbyn y Wobr.

MODYLAU

Mae manylion y modwl yn gywir ar 1 Medi 2023, ac ni fyddant fel arfer yn newid yn ystod y flwyddyn. Os digwydd y bydd angen gwneud newidiadau i'r manylion hyn yn ystod y flwyddyn, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig. Cyflwynir y disgrifydd modiwl perthnasol yn y ddogfen Cyfeiriadur Modiwlau cysylltiedig.

POLISI YMGYSYLLTU'R BRIFYSGOL

Mae presenoldeb yn ddangosydd pwysig o'ch ymroddiad a'ch llwyddiant yn eich astudiaethau. Felly mae'n ofynnol i bob myfyriwr fynychu pob dosbarth a thiwtorial sydd wedi'u hamserlennu a bydd yr Athrofeydd yn cofnodi presenoldeb academaidd unigolion. Mae'n bwysig eich bod yn:

- ymgyfarwyddo â'r polisi ymgysylltu sy'n berthnasol i chi (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/llawlyfr-ansawdd-academaidd/);
- llwyr ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn yn achos absenoldebau annisgwyl;
- ymwybodol y cymerir camau disgyblu os ceir cyfnodau parhaus o absenoldeb heb awdurdod.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i **fyfyrwyr rhyngwladol â Fisa Myfyrwyr**. Os na fyddwch yn cadw at ofynion ac amodau'r Polisi Ymgysylltu bydd rhaid i chi dynnu'n ôl o'ch rhaglen a bydd y Brifysgol hefyd yn hysbysu'r UKVI i dynnu eich nawdd fisa myfyrwyr yn ôl.

Apelio yn erbyn tynnu myfyriwr yn ôl oherwydd diffyg ymgysylltu - Darperir gwybodaeth ar sut i apelio yn erbyn tynnu myfyriwr yn ôl ar sail diffyg ymgysylltu o fewn y Polisi Ymgysylltu.

CODAU YMDDYGIAD

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol ar gyfer pob myfyriwr, lle mae gan bob myfyriwr y potensial i lwyddo hyd eithaf ei allu.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r holl fyfyrwyr gadw at y Cod Ymddygiad Myfyrwyr (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgysylltu-â-myfyrwyr/).

Yn ogystal mae gan y Brifysgol Bolisi Cymorth i Astudio a Pholisi Addasrwydd i Ymarfer (gweler https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/llawlyfr-ansawdd-academaidd/).

Yn ogystal, mae gan nifer o raglenni god ymddygiad proffesiynol y mae disgwyl i chi gadw ato. Fe gewch y manylion priodol gan eich Rheolwr Rhaglen.

YNGLŶN AG UNIONDEB ACADEMAIDD

Uniondeb academaidd yw bod yn onest yn y gwaith a wnewch chi yn eich astudiaethau. Mae onestrwydd ar sawl ffurf; er enghraifft:

- Ysgrifennu eich atebion eich hun mewn arholiadau nas gwelir o flaen llaw heb ymgynghori ag eraill neu ddefnyddio deunyddiau ar-lein neu wedi'u hargraffu;
- Cydnabod gwaith a syniadau pobl eraill yn ffurfiol, p'un a ydynt yn eiddo ffrind, darlithydd, erthygl neu lyfr rydych wedi'i ddarllen, neu'n dudalen ar y rhyngrwyd;
- Sicrhau eich bod yn cael caniatâd moesegol ar gyfer eich ymchwil lle bo rhaid;
- A llawer o gamau eraill y cymerwch yn ystod eich astudiaethau.

Os torrir Uniondeb Academaidd, gelwir hynny'n Camymddwyn Academaidd.

Diffiniad Camymddwyn Academaidd yn ôl y Brifysgol yw '– Unrhyw weithred gan fyfyriwr sy'n rhoi neu a allai roi mantais annheg mewn arholiad neu asesiad, neu a allai gynorthwyo rhywun arall i gael mantais annheg, neu unrhyw weithgarwch sy'n debygol o danseilio'r integredd sy'n hanfodol i ysgolheictod ac ymchwil.' Cyflawni arfer annheg mewn asesiad yw un o'r troseddau mwyaf difrifol yn y byd academaidd, a gall ei ganlyniadau fod yn ddifrifol. Mae'n tanseilio integredd ysgolheictod, ymchwil a'r broses arholi ac asesu.

Mae'n bwysig iawn deall nad yw'n amddiffyniad honni bod camymddwyn academaidd wedi digwydd yn anfwriadol, yn ddamweiniol, oherwydd amgylchiadau esgusodol neu nam hirdymor (pa un ai yw'r Brifysgol wedi cydnabod yr amgylchiadau hyn neu'r nam hirdymor ai peidio).

Ceir y fframwaith rheoleiddiol llawn, gan gynnwys dirwyon, ar Gamymddwyn Academaidd ym Mholisi Camymddwyn Academaidd PCYDDS.

Ceir sawl math o Gamymddwyn Academaidd. Dyma rai enghreifftiau a sut i'w hosgoi:

Llên-ladrad yw cyflwyno gwaith neu syniadau rhywun arall fel eich gwaith eich hun. Gall llên-ladrad gynnwys cymalau, brawddegau, syniadau, safbwyntiau, data, tablau, lluniau neu'n wir unrhyw beth mae rhywun arall wedi'i greu ac a gyflwynir fel eich gwaith eich hun.

Sut i osgoi llên-ladrad:

1. Peidio byth â chopïo/gludo o unrhyw ffynhonnell, oni bai eich bod wedi nodi'n glir eich bod yn gwneud hynny.
2. Darparu cyfeiriadau bob tro i'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd gennych.

Yn ei hanfod, cyfeirnodi yw cydnabod y ffynonellau gwybodaeth a syniadau a ddefnyddiwyd gennych.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod pedair arddull cyfeirnodi: APA, Harvard, IEEE a MHRA ac yn darparu llawlyfr ar gyfer pob un o'r arddulliau hyn. Yn achos eich rhaglen astudio, dylech ddefnyddio Cyfeirnodi Harvard.

Ceir yr holl Lawlyfrau Cyfeirnodi yma:
https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/defnyddio-ein-llyfrgelloedd/llyfrgell-ar-lein/llawlyfrau-cyfeirnodi/

Os nad ydych yn sicr pa lawlyfr sydd ar gyfer eich pwnc, holwch eich Rheolwr Rhaglen neu Diwtor Academaidd.

Hunan lên-ladrad yw pan fyddwch yn ailddefnyddio deunydd rydych wedi'i greu eich hun.
Sut i osgoi hunan lên-ladrad:

1. Peidiwch fyth â chymryd paragraff (neu frawddeg neu graff neu ddelwedd, ayb) o ddarn o waith blaenorol a'i gyflwyno'n rhan o ddarn o waith newydd.

Cofiwch fod hunan lên-ladrad cynddrwg â llên-ladrad ac mae'r un dirwyon ynghlwm ag ef.

Mae **Awduraeth ffug** yn gategori camymddwyn eang, sy'n cynnwys prynu traethawd oddi ar felin draethodau i ddefnyddio meddalwedd aralleirio.

Sut i osgoi awduraeth ffug:

1. Peidiwch fyth â gofyn i neb arall greu eich gwaith, boed hynny'n ffrind, yn berthynas neu'n rhywun y byddwch yn ei dalu.

2. Peidiwch fyth â chyflwyno gwaith rydych wedi'i brynu neu ofyn amdano.

3. Peidiwch â defnyddio cronfeydd deunyddiau, lle bydd myfyrwyr yn stori traethodau a nodiadau, heb gyfeirnodi'n llawn.

4. Peidiwch â defnyddio meddalwedd aralleirio neu Gynyrchyddion Deallusrwydd Artiffisial, oni bai bod y tiwtor modwl wedi rhoi caniatâd i chi wneud hynny.

Yn ei hanfod, mae'n rhaid i'r gwaith y gwnewch chi ei gyflwyno ar gyfer unrhyw ran o'ch gradd **fod yn eiddo i chi.**

Cyd-dwyllo yw pan fydd dau fyfyriwr neu fwy'n cyflwyno gwaith sy'n debyg iawn ac mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod wedi gweithio gyda'i gilydd neu fod un wedi defnyddio gwaith y llall. Dim nod pan fo'r aseiniad i fod i gael ei gwblhau gan bob myfyriwr yn unigol y bydd cyd-dwyllo'n berthnasol. Nid yw gwaith grŵp a gyflwynir fel grŵp yn agored i gyhuddiadau o gyd-dwyllo.

Sut i osgoi cyd-dwyllo:

1. Cadwch eich defnyddiau, fel nodiadau a wnewch wrth ddarllen, drafftiau traethodau, ayb yn breifat.

2. Peidiwch â'u rhannu gydag eraill, p'un a ydynt yn yr un dosbarth neu mewn dosbarth arall.

3. Peidiwch â'u cyhoeddi ar-lein.

4. Peidiwch â'u gadael ar gyfrifiaduron a rennir heb amddiffyniad cyfrinair.

Nid oes problem i chi drafod eich gwaith, eich darganfyddiadau a gwybodaeth gyda myfyrwyr eraill. I'r gwrthwyneb, yn aml, gofynnir i chi weithio gydag eraill yn anffurfiol boed hynny yn y dosbarth neu du allan iddo. Mae dysgu gan eraill ac addysgu eraill yn llwybr hanfodol i ddysgu dyfnach.

Mae **twyllo mewn arholiadau** (neu asesiad ffurfiol arall), yn cynnwys bod â deunydd neu dechnoleg heb ganiatâd yn ystod arholiad, a cheisio cael mynediad at ddeunyddiau asesu nas gwelir ymlaen llaw cyn arholiad.

Wrth gofrestru'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant rydych wedi caniatáu i'ch gwaith gael ei graffu'n electronig ac o ran camymddwyn academaidd. Fel arfer, bydd eich gwaith yn cael ei gyflwyno'n electronig trwy Moodle.

Yn achos cyflwyniadau y tu allan i blatfform Moodle, mae'r un mor bwysig eich bod yn cyfeirnodi eich ffynonellau'n gywir. Mewn rhai achosion bydd disgwyl i chi gyflwyno copïau caled ac electronig, y gellir eu gwirio yn erbyn cronfa ddata Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad Addysg Uwch y DU. Yn achos cyflwyniadau mewn llawysgrifen, portffolios a llyfrau proses, holwch eich tiwtor modwl os ydych yn amau eich bod wedi torri'r rheoliadau. Maen nhw yma i'ch cynorthwyo chi; sicrhewch eich bod yn manteisio ar eu harbenigedd.

Y LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU

Nod y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu (LlAD) yw cefnogi a chyfoethogi gweithgareddau dysgu, addysgu ac ymchwil staff a myfyrwyr y Brifysgol. Ceir llyfrgelloedd ar gampysau Abertawe, Caerfyrddin, Llambed, Llundain a Birmingham sy'n darparu mynediad i amrywiaeth o fannau dysgu croesawgar a hyblyg. Rydym yn darparu mynediad i filoedd o gyfnodolion ac e-lyfrau ar ac oddi ar y campws, ac yn tanysgrifio i gronfeydd data ar-lein sy'n berthnasol i bob maes pwnc; yn ogystal â chymorth llythrennedd digidol a gwybodaeth, cymorth ymchwil a chasgliadau arbennig ac archifau.

Mae'r LlAD yn aelod llawn o WHELF (Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru) ac yn aelod o gynllun mynediad SCONUL (Cymdeithas Llyfrgelloedd Colegau, Cenedlaethol a Phrifysgolion), sy'n fenter gydweithredol rhwng y rhan fwyaf o lyfrgelloedd addysg uwch y DU ac Iwerddon. Mae'n galluogi i staff, myfyrwyr ymchwil, ôl-raddedigion llawn amser a rhan amser, myfyrwyr dysgu o bell a rhai ar leoliadau i gael benthyg deunydd gan lyfrgelloedd eraill. Mae Llyfrgellwyr yn cael eu croesawu mewn Pwyllgorau Staff / Myfyrwyr, ac maent yn mynd i gyfarfodydd perthnasol eraill yr Athrofeydd drwy wahoddiad, yn cynnwys Byrddau Athrofeydd.

Llyfrgell Ar-lein

Mae'r LlAD yn cynnig ystod eang o adnoddau print ac electronig ar gyfer y rhaglenni a gynigir gan yr Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf. Mae gan y LlAD gasgliad helaeth o e-gyfnodolion ar-lein, e-lyfrau, a deunydd clyweledol, ac mae'r adnoddau electronig ar gael 24/7. Gall defnyddwyr gael mynediad i amrywiaeth o e-adnoddau, sy'n cynnwys cyfnodolion ysgolheigaidd, papurau newydd, adroddiadau cwmnïau a deunydd cyfeirio.

Datblygu Sgiliau

Llyfrgellwyr Cyswllt Academaidd yw prif bwynt cyswllt staff a myfyrwyr, ac maent yn cyfrannu at yr addysgu a'r dysgu trwy helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddarganfod, defnyddio a gwerthuso ffynonellau gwybodaeth o fewn y meysydd pwnc a addysgir gan yr Athrofa. Mae pob myfyriwr newydd yn cael sesiwn sgiliau sylfaenol a sesiwn gyfeirnodi yn ystod y tymor cyntaf, wedi'i dilyn gan sesiynau manylach drwy gydol eu hastudiaethau.

Hefyd, mae Llyfrgellwyr Cyswllt Academaidd yn darparu rhaglen o Sgiliau Gwybodaeth ehangach sy'n ffocysu ar sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau academaidd trosglwyddadwy. Mae hyn yn cynnwys sgiliau chwilio uwch, defnydd moesegol o wybodaeth, gyfeirnodi a rheoli eich hunaniaeth ar-lein. Gellir darparu cymorth wyneb i wyneb neu o bell; drwy

e-bost, dros y ffôn neu dros Teams. Hefyd, gall myfyrwyr archebu sesiwn un i un yn uniongyrchol gyda'u llyfrgellydd neu ymgynghorydd sgiliau digidol ar wefan y llyfrgell. Hefyd, mae canllawiau cyfeirnodi ar gael gan y LIAD ar wefan y llyfrgell.

Sgiliau Digidol
Mae ein tîm Gwasanaethau Digidol ar law o hyd i roi cymorth i fyfyrwyr wrth adnabod eu bylchau sgiliau eu hunain a dod o hyd i adnoddau dysgu i ddatblygu hyder digidol. Gallwch gael mynediad i'n hystod lawn o adnoddau sgiliau digidol unrhyw bryd. Mae llawer o'n cyrsiau gan LinkedIn Learning, ac fel aelod o staff neu fyfyriwr, mae gennych fynediad am ddim. Gall myfyrwyr ennill ystod o fathodynnau digidol i ddangos eu gwybodaeth a'u medrau digidol.

Cymorth Arbenigol Arall
Mae'r LIAD yn cynnig mynediad i ystod eang o ffynonellau gwybodaeth mewn fformatau amrywiol a hygyrch, gan sicrhau darpariaeth a mynediad at ddeunyddiau dysgu cydradd. Gall aelod dynodedig o staff roi help a chyngor i fyfyrwyr ag anableddau neu ofynion dysgu penodol. Hefyd, rhoddir cymorth arbenigol ar hawlfraint, cyfeirnodi, a gweithgareddau ymchwil. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar Reolaeth Data Ymchwil, defnyddio meddalwedd cyfeirnodi, gofynion Mynediad Agored, sefydlu eich ID ORCID a mesur effaith ymchwil, chwilio estynedig am lenyddiaeth a chael mynediad i lyfrgelloedd academaidd ac ymchwil eraill.

Y Gwasanaeth Angen Mwy?
Mae'r LIAD yn darparu gwasanaeth Angen Mwy? sy'n meithrin agwedd arloesol at ddarparu adnoddau, darparu siop un stop ar gyfer unrhyw anghenion adnoddau dysgu. Os oes angen llyfr, cyfnodolyn neu adnodd arall ac nid yw yn stoc y llyfrgell, gellir ei brynu, ei fenthyg gan lyfrgell arall neu ei rentu'n e-lyfr. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn darparu mecanwaith atgyfeirio fel bod myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i'w Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau presennol neu lle maent yn gweithio ar brosiect arbenigol.

Mannau Dysgu
Mae croeso i fyfyrwyr ddefnyddio unrhyw rai o lyfrgelloedd Y Drindod Dewi Sant, waeth pa bwnc maent yn ei astudio. Yn ogystal â'r casgliadau, mae'r llyfrgell yn darparu amrywiaeth o fannau hyblyg, gan adlewyrchu'r ffyrdd mae myfyrwyr yn gweithio e.e. mannau astudio i grwpiau a mannau tawel, yn ogystal â chyfleusterau TG, rhwydwaith diwifr, cyfleusterau llungopïo ac argraffu a gwasanaeth cwsmeriaid gwych.

Gwybodaeth Bellach
I weld datblygiadau diweddar i'r gwasanaeth ac i gael diweddariadau, ewch i wefan LIAD: https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/. Cewch wybodaeth gyswllt staff a llyfrgelloedd yma hefyd ar gyfer holl lyfrgelloedd y Brifysgol. Hefyd, gallwch ddilyn y LIAD ar Facebook, Twitter ac Instagram (@UWTSDLib) a chysylltu â nhw mewn e-bost: llyfrgell@pcydds.ac.uk.

CREADIGRWYDD A DYSGU DIGIDOL

Dysgu Digidol

Mae dysgu digidol yn cwmpasu amrywiaeth eang o fodelau a dulliau dysgu, technolegau a gwasanaethau digidol, felly rydym yn chwarae rhan hanfodol yn y modd y cyflwynir cynnwys a'r modd y mae myfyrwyr yn dysgu. Mae sefyllfa bresennol Covid wedi bod yn gatalydd i wella arwyddocâd adnoddau dysgu ac addysgu digidol o ansawdd uchel, a hefyd bwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb rhwng profiadau dysgu wyneb yn wyneb ac o bell.

Gall pecyn datblygedig o ddeunyddiau dysgu digidol:

- Wella profiad dysgu
- Ehangu cyfranogiad a chydweithio
- Gwella hygyrchedd
- Datblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol

DARPARU GWASANAETH TG

Mae cymorth TG ar gael drwy ein Desg Wasanaeth TG sydd ar gael i'ch helpu a'ch cynorthwyo dros y ffôn, yn bersonol neu drwy ein system Desg Gymorth y We ar-lein.

I ofyn am Gymorth TG, ewch i'n gwasanaeth Desg Gymorth ar y We. Fel dewis arall, rydym hefyd yn darparu cymorth dros y ffôn 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, felly does dim gwahaniaeth pryd y bydd angen cymorth arnoch, rydym yma i helpu drwy ffonio 0300 500 5055.

Wi-Fi
Gall pob myfyriwr gael mynediad i'n rhwydwaith di-wifr Eduroam ar eu gliniadur, ffôn symudol neu dabled.

Eduroam yw'r rhwydwaith di-wifr sydd ar gael i'w ddefnyddio ar draws pob campws. Mae Eduroam hefyd yn rhoi mynediad i Wi-Fi i chi mewn unrhyw sefydliad arall ar draws y byd sy'n defnyddio Eduroam.

Cyfrifiaduron Mynediad Agored a Chyfleusterau Archebu
Gall myfyrwyr gael mynediad i gyfleusterau TG cyffredinol drwy ein hardaloedd cyfrifiaduron mynediad agored ar draws campysau ein Prifysgol.

Beth mae ystafelloedd cyfrifiaduron yn ei gynnig?

- Cyfrifiaduron personol sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith data'r Brifysgol
- Fel arfer, dyfais amlswyddogaeth (MFD) sy'n cynnig argraffu lliw a du a gwyn, copïo a sganio neu argraffydd laser lliw
- Gall hefyd gynnwys mynediad di-wifr ac offer mwy arbenigol megis plotyddion, Offer Dadansoddi Chwaraeon ac offer clyweled
- Oriau agor hir gyda llawer ohonynt ar agor 24/7
- Y gallu i archebu cyfrifiadur personol ymlaen llaw i'w ddefnyddio o bell i sicrhau ei fod ar gael i chi ar yr adeg y mae angen i chi astudio.

Bargeinion TG i Fyfyrwyr
Rydym yn darparu mynediad i fyfyrwyr i feddalwedd a systemau cyfrifiadurol am ddim neu am bris â gostyngiad sylweddol drwy ein Bargeinion TG i Fyfyrwyr.

Microsoft Office 365 am ddim
Fel myfyriwr yn y Drindod Dewi Sant, cewch lawrlwytho Microsoft Office 365 Pro Plus, yn cynnwys Word, Excel a PowerPoint, i'w defnyddio'n rhad ac am ddim drwy gydol eich astudiaethau yn y Drindod Dewi Sant.

Adobe Creative Cloud
Caiff myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau cymwys fynediad i gyfres Adobe Creative Cloud am ddim, y gellir ei osod ar eich dyfais bersonol yn ystod eich astudiaethau.

Hefyd cewch brynu copi o Adobe Creative Cloud yn uniongyrchol o Wefan Adobe a chael o leiaf 65% o ostyngiad wrth dalu bob mis.

Windows 10 & 11 am ddim
Gallwn roi trwydded i bob myfyriwr ddefnyddio system weithredu ddiweddaraf Microsoft am ddim o'n siop On the Hub.

Gostyngiadau Meddalwedd
Rydyn ni wedi creu siop ar-lein ble gall myfyrwyr lawrlwytho amrywiaeth enfawr o feddalwedd am ddim neu am bris â gostyngiad sylweddol i'w defnyddio gartref.

Siop EDU
Mae gostyngiadau ar gael i fyfyrwyr ar amrywiaeth o gynnyrch gan gynnwys Microsoft Surface, dyfeisiau, Ffonau a Watsiau Clyfar Apple. Gwarant 4 blynedd am ddim ar holl gynnyrch Apple a gellir derbyn pob archeb am ddim y diwrnod wedyn.

Uwchraddio'n Hawdd gyda Select
Cewch y Cynnyrch Apple sydd ei eisiau arnoch nawr. Gwasgarwch y gost gyda thaliadau misol isel, uwchraddio i'r ddyfais ddiweddaraf ar ddiwedd y cynllun neu dalu'r balans drwy'r Siop Uwchraddio'n Hawdd.

Siop Addysg Apple
Cewch brisiau gwych ar nwyddau addysg gan Apple drwy fynd i Siop Addysg Apple.

Autodesk am ddim
Lawrlwythwch amrywiaeth o feddalwedd Autodesk yn cynnwys Fusion 360, Inventor Professional, Revit, AutoCAD, 3ds Max a Maya.

Argraffu, Copïo a Sganio
Mae gwasanaethau argraffu, copïo a sganio ar gael i fyfyrwyr ar draws holl Ganolfannau Adnoddau Dysgu'r Brifysgol ynghyd ag ystafelloedd cyfrifiaduron penodol ac ardaloedd mynediad agored.

Mae'r Drindod Dewi Sant yn defnyddio Dyfeisiau Amlswyddogaeth (MDF) sydd â swyddogaethau argraffu, copïo a sganio ar gael mewn lliw llawn neu ddu a gwyn.

GWASANAETHAU MYFYRWYR

Gwasanaeth cymorth proffesiynol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd o ansawdd uchel ynghyd â chymorth ymarferol ac emosiynol er mwyn galluogi'r holl fyfyrwyr i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys y Gwasanaeth Gyrfaoedd, Cymorth Ariannol, Cymorth Dysgu, Cymorth Llesiant, y Gwasanaeth Cwnsela a chymorth i fyfyrwyr o gefndir gofal. I gael rhagor o fanylion gweler http://www.uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-myfyrwyr/.

SGILIAU ASTUDIO

Bydd pob myfyriwr yn gallu manteisio ar gymorth sgiliau astudio i'w cynorthwyo yn eu hastudiaethau. Mae manylion y ddarpariaeth ar gael o swyddfeydd Gwasanaethau Myfyrwyr ar bob campws ac ar http://www.uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-myfyrwyr/cymorth-sgiliau-astudio/

Mae'r testunau posibl yn cynnwys:
Datblygu strategaethau astudio effeithiol
Cynllunio ac ysgrifennu aseiniadau

Paratoi cyflwyniadau
Cynllunio ar gyfer seminarau
Paratoi ar gyfer arholiadau

Mae sesiynau galw heibio ac apwyntiadau 1:1 yn ymwneud â sgiliau astudio ar gael ar-lein (ac wyneb yn wyneb lle bo modd) – nid oes angen apwyntiad. Gweler tudalennau gwe Gwasanaethau Myfyrwyr yn ymwneud â sgiliau astudio am ragor o fanylion:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-myfyrwyr/cymorth-sgiliau-astudio/

CWYNION

Mae gennych hawl i wneud cwyn am unrhyw bryder penodol yn ymwneud â darpariaeth eich Rhaglen Astudio neu wasanaeth academaidd perthynol. Ceir manylion llawn y broses gwynion yn y *Polisi Cwynion Myfyrwyr* a gysylltir â Phennod 12 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ac mewn dogfennaeth ategol a gyhoeddir yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/

GWYBODAETH YCHWANEGOL I FYFYRWYR AR TYSTYSGRIF RADDEDIG CADARNHAU YMARFER GWAITH CYMDEITHASOL

Mae'r Rhaglen yn cynnwys un modiwl lefel 6 y byddwch yn ymgymryd ag ef dros y 12-15 mis nesaf.

Mae’r rhaglen hon yn drefniant ar y cyd rhwng grŵp o 12 Awdurdod Lleol (Atodiad 4), a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (www.uwtsd.ac.uk) - mae'r grwp hwn yn cael ei enw Porth Agored, Mae’r cymhwyster wedi’i fwriadu’n bennaf ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Caiff ei reoleiddio a'i gymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), a'i ddyfarnu gan Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant.

Mae'n rhaid i bob Gweithiwr Cymdeithasol sy'n cymhwyso ar ôl 1 Ebrill 2016, sy'n gweithio mewn swyddi sy'n ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol, gwblhau'r rhaglen Gadarnhau yn ystod eu cyfnod cofrestredig cyntaf gyda GCC.

Mae’r Dystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol wedi’i bwriadu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso mewn Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill sy’n cyflogi gweithwyr cymdeithasol. Fel arfer bydd y Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso wedi cwblhau neu ar fin cwblhau blwyddyn gyntaf y Fframwaith ‘Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer’. Ym mhob achos, mae’r rhaglen wedi’i bwriadu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy’n ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol ond nid y rheini sydd wedi cymhwyso, sydd yn gweithio efallai mewn meysydd cysylltiedig yn hytrach na fel gweithwyr cymdeithasol cofrestredig wrth eu gwaith. **Pwyslais y rhaglen yw cadarnhau’r dysgu o’r radd a datblygu ymhellach unrhyw sgiliau neu wybodaeth sydd ganddynt yn eu maes gwaith arbenigol.**

Mae’r cymhwyster ar gael hefyd i weithwyr cymdeithasol cofrestredig sy’n dychwelyd i’r gwaith ar ôl seibiant gyrfa ac sydd wedi’u dynodi gan eu cyflogwyr yn ymgeiswyr addas.

Mae Porth Agored a’r Brifysgol wedi ymdrechu i’r eithaf i sicrhau bod y wybodaeth yn y Llawlyfr a’r Modwl mor gyflawn ac mor gywir â phosibl, ond dylech gadw mewn cof y gallai fod mân newidiadau yn nhrefniadaeth a chyflwyniad y modwl. Byddwn yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o newidiadau o’r fath, a byddwch yn cael digon o rybudd ymlaen llaw os bydd newid yn digwydd. Byddem hefyd yn ddiolchgar i gael gwybod gennych am unrhyw newidiadau a fyddai o gymorth yn eich barn chi i’w cynnwys mewn llawlyfrau yn y dyfodol.

Mae templedi portffolio ar gael ar Moodle ac mae'n ofynnol i chi ddefnyddio'r fersiwn gywir ar gyfer eich carfan.

Rheoli a gweinyddu’r cymhwyster:

Tîm hyfforddi/datblygu’r gweithlu ym mhob Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am reoli’r cymhwyster.

Bydd Bwrdd Rheoli Rhaglen yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn i ystyried y gwaith o fonitro, darparu, datblygu a safoni’r rhaglen. Mae’r 12 Awdurdod Lleol wedi’u cynrychioli ar y Bwrdd Rheoli, ynghyd â chynrychiolwyr o’r Drindod Dewi Sant a phobl sydd angen gofal a chymorth a/neu’u gofalwyr.

Mae Bwrdd Rheoli Porth Agored yn cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd, ac o leiaf un cynrychiolydd o bob un o'r 12 Awdurdod Lleol, ynghyd â phobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr.

Rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau ei fod yn gallu darparu mentor, arsylwr ac aseswr o'r Awdurdod ar gyfer pob dysgwr sydd wedi cofrestru a rhaid i'r rhain fod yn weithwyr cymdeithasol cofrestredig ag o leiaf 3 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso.

Strwythur y Cymhwyster

Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar y canlyniadau dysgu a bennwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y Rhaglen Gadarnhau o fewn fframwaith ehangach Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (Atodiad 5) a'r Cod Ymarfer Proffesiynol (GCC, 2017).

I gael rhagor o wybodaeth am CPEL, ewch i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru https://socialcare.wales/

Bydd y cymhwyster yn eich galluogi i ddangos, trwy bortffolio tystiolaeth, eich bod wedi cadarnhau ac ymestyn eich lefel cymhwysedd.

Lluniwyd y portffolio i'ch galluogi i ddangos sut rydych wedi datblygu eich ymarfer drwy'r defnydd o brofiad, hyfforddiant ac ymchwil perthnasol ers cymhwyso, er mwyn cadarnhau eich dysgu i fodloni gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru.

Graddfeydd Amser

Byddwch yn ymuno â'r rhaglen yn rhan o garfan; mae dau gyfle o fewn un flwyddyn academaidd i gychwyn ar y rhaglen. Bydd disgwyl i chi gwblhau'r rhaglen drwy gyflwyno portffolio o fewn cyfnod o 12 mis, sydd wedi'i nodi'n glir o fewn y Rhestr Dyddiadau a roddir yn ystod y sesiwn gynefino.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cyflwyno portffolios yn gynnar, os cytunir ar hynny, er enghraifft, o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth. Fodd bynnag, beth bynnag yw'r amgylchiadau, ni ellir cyflwyno portffolio yn gynharach na 9 mis ar ôl y dyddiad cofrestru ar y rhaglen. Mae'n rhaid i chi allu dangos tystiolaeth o'r modd rydych chi wedi ymestyn eich gwybodaeth a'ch sgiliau drwy ymgymryd â gwaith sy'n gynyddol gymhleth. Drwy ddiffiniad, ni fyddai'n bosibl "ehangu gwybodaeth a sgiliau" i'r graddau sy'n ofynnol pe byddai'r flwyddyn gadarnhau'n cael ei chwtogi i lai na 9 mis, neu pe bai'r portffolio'n cael ei gwblhau, er enghraifft, yn ystod cyfnod sylweddol o absenoldeb pan nad oeddech yn y gwaith yn ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol.

Y Ganolfan Adnoddau Dysgu

Fel dysgwr, byddwch yn gallu defnyddio holl adnoddau'r brifysgol. I gael y manylion yn llawn, ewch i: http://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/ sy'n nodi bod holl staff a dysgwyr y Brifysgol yn cael eu defnyddio am ddim, a bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Ganolfan Adnoddau Dysgu at ddibenion cyfeirio neu wneud cais i ymuno.

Adnoddau Awdurdodau Lleol

Mae gan bob Awdurdod Lleol lyfrgell o adnoddau sy'n cynnwys cyhoeddiadau perthnasol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan y Timau Hyfforddi / Datblygu'r Gweithlu yn eich Awdurdod.
Sut mae'r rhaglen yn cynrychioli pobl sydd angen gofal a chymorth, a'u gofalwyr

Mae'r rhaglen wedi ymrwymo i gynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth, a'u gofalwyr, mewn modd gweithredol ac ystyrlon wrth ddatblygu, rheoli, cyflwyno ac adolygu'r rhaglen.

Mae'r rhaglen wedi ymrwymo, a bydd yn parhau wedi ymrwymo, i gynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth, a'u gofalwyr, h.y. unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau (gofal cymdeithasol). Yn ogystal â chael eu cynrychioli ym mhob cyfarfod rheoli rhaglen, maent hefyd yn rhan o gyfarfodydd datblygu, neu yn gallu cyfrannu at y cyfarfodydd hyn, sydd â chyfrifoldeb penodol dros ymdrin ag elfennau adolygu'r rhaglen. Bydd unigolyn penodol sy'n cynrychioli barn pobl sydd angen gofal a chymorth, a'u gofalwyr, yn gwneud sylwadau ar newidiadau a datblygiadau i'r portffolio neu'r cynnwys. Er mwyn tanategu gwerth pobl sydd angen cymorth a gofal, a'u gofalwyr, mae'r partneriaid hefyd yn cytuno ei bod yn rhaid i bortffolio'r rhaglen gynnwys arsylwi ar gyswllt y cyfranogwyr gyda phobl sydd angen gofal a chymorth, a'u gofalwyr, o fewn proses o asesu ymarfer gwaith cymdeithasol uniongyrchol.

Fel proses gynefino ar gyfer pob person newydd sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr a ddaw'n rhan o'r rhaglen, bydd mentor yn cael ei ddynodi iddynt i roi'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol iddynt er mwyn gallu rhoi'r cyfarfodydd mewn cyd-destun. Bydd y mentor yn parhau i roi cefnogaeth barhaus iddynt ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau

ASESIAD - Nodiadau a Chanllawiau

Modiwl: BMPF6044: Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Ar ddechrau'r rhaglen, byddwch yn derbyn manylion llawn am y modd y byddwch yn cael eich asesu. Bydd yn cynnwys canllawiau clir am y meini prawf a ddefnyddir i farcio eich gwaith.

Mae templedi portffolio ar gael ar Moodle ac mae'n ofynnol i chi ddefnyddio'r fersiwn gywir ar gyfer eich carfan.

Bydd cymaint â phosibl o'r rhaglen ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cyflwyno ac asesu'r holl ddeunyddiau asesu yn Gymraeg, neu gyfuniad o'r Gymraeg a'r Saesneg. Bydd asesydd sydd â chymwysterau addas o Awdurdod arall yn marcio eich gwaith.

Byddwch yn derbyn copi drafft o'ch adborth a marciau asesu yn dilyn y panel cymedroli drwy Turnitin. Sylwer bod unrhyw farciau a ryddheir cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Arholi yn farciau amodol. Bydd canlyniadau wedi'u cadarnhau ar gael trwy eich cofnod My TSD 10 diwrnod ar ôl i'r Bwrdd Arholi gyfarfod.

Rhaid cefnogi'r asesiad penodol o'r tasgau ysgrifenedig yn eich portffolio drwy roi tystiolaeth drwyddi draw o'ch arfer eich hun yn y gweithle a myfyrio beirniadol, a rhaid i hyn fod yn gymesur â gofynion y proffesiwn a'r Cod Ymarfer Proffesiynol. Mae cyflawni cymhwysedd yn ymarferol yn elfen orfodol o'r cymhwyster hwn, a rhaid i hyn gael ei wirio gan eich rheolwr yn unol â gofynion y Fframwaith Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer. *Rhaid i'r adran hon gael ei chwblhau a'i llofnodi* gan eich rheolwr llinell a/neu uwch ymarferydd yn adran 8 y Portffolio. Os nad yw'r rheolwr llinell yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig, rhaid i hyn gael ei wirio hefyd gan ymarferydd gwaith cymdeithasol mewn uwch swydd (y mentor efallai) sydd yn gyfarwydd â'ch gwaith.

Bydd adroddiad y Mentor ynghyd â gwiriad y Rheolwr Llinell yn darparu tystiolaeth o Arfer Proffesiynol, goruchwyliaeth broffesiynol ac arsylwadau ar Arfer Proffesiynol a gwblhawyd dros gyfnod y Dystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol (arfer seiliedig ar waith sy'n cyfateb i 7,000 o eiriau).

Disgrifir y meini prawf ar gyfer pob Tasg Asesu ar y tudalennau sy'n dilyn.

- Mae'r meini prawf marcio Penodol yn ymwneud â deilliannau'r modwl a'r gofynion o ran y portffolio.

Ym mhob Tasg Asesu yn y rhaglen, rhaid i chi gyflawni marc o 40% o leiaf er mwyn llwyddo yn y cymhwyster cyfan.

NODYN PWYSIG I'CH ATGOFFA:

- Wrth gwblhau pob un o'r cydrannau a aseswyd rhaid i chi ddefnyddio gweithgareddau priodol seiliedig ar waith a gyflawnwyd tra'ch bod wedi'i gofrestru ar y rhaglen. Os oes angen cyngor arnoch ar addasrwydd gweithgaredd, trafodwch hwn gyda'ch rheolwr llinell/mentor/cydlynydd hyfforddiant.

- Mae'n bwysig iawn eich bod yn llwyr ddeall y wybodaeth yn y Llawlyfr hwn a'r Portffolio ynglŷn â chyfrinachedd. Eich cyfrifoldeb chi yw cynnwys portffolio. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar y posibilrwydd y bydd achosion posibl o dor-cyfrinachedd yn cael eu nodi yn ystod gweithdai neu sesiynau eraill. Felly, cyn ei gyflwyno, mae'n hanfodol eich bod yn gwirio eich portffolio'n ofalus i sicrhau eich bod yn bodloni'r holl ofynion o ran cyfrinachedd. **Bydd unrhyw achos unigol neu luosog o dorri cyfrinachedd yn arwain at ostwng y marc, a fydd yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniad yr asesiad.** Os byddwch yn torri'r canllawiau cyfrinachedd, dylech nodi y tynnir uchafswm o 5 marc o bob tasg asesu am fân dramgwydd, a gallai tramgwydd mwy difrifol arwain at fethu'r portffolio cyfan a chael eich cyfeirio at y cyflogwr.
  Sylwer os oes man doriad bydd 5 marc yn cael eu tynnu fesul tasg.
  Ar gyfer toriadau mwy difrifol, ni fydd y gwaith yn cael ei asesu a bydd yn cael ei farcio fel 0.

- Mae canllaw clir ym mhob adran o'r portffolio ynghylch nifer y geiriau y mae disgwyl i chi eu hysgrifennu a disgwylir i chi nodi union nifer y geiriau ar ddiwedd pob adran (e.e. 3,000 o eiriau) fel y bydd yr aseswr yn gallu cymharu hyn â'r gofyniad. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn bodloni'r. gofynion o ran nifer y geiriau ar gyfer pob adran, er bod goddefiant o + neu – 10%. Dylech nodi os byddwch yn torri'r canllawiau cyfrif geiriau ar gyfer unrhyw dasg, y bydd cosbau yn berthnasol fel y nodir ym Mhennod 7.7 y llawlyfr Ansawdd Academaidd: "Gweithio dros yr Uchafswm Geiriau".

- Os gwelir unrhyw enghraifft o lên-ladrad, bydd y Brifysgol yn trin y mater fel un difrifol. Ceir cyngor ar hyn yn y Llawlyfr Rhaglen. Dylech gofio hefyd, pe byddai cyhuddiad o'r fath yn cael ei ddwyn yn eich erbyn, y bydd cyflogwyr bron yn sicr o'i ystyried fel achos o dorri'r Cod Ymarfer Proffesiynol ac yn delio ag ef yn unol â hynny.

MEINI PRAWF MARCIO PENODOL - BMPF6044C

Tasg 1 – Adolygu Datblygiad (rhan a b)
RHAGORIAETH - 70+
Mae rhannau **a b** o Dasg 1 o safon ragorol. **Rhan a** Cyflwynir dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion dysgu yng nghyswllt arfer proffesiynol ers cymhwyso ac mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau yn rhagorol ar ôl cael eu trafod gyda gweithwyr priodol yn y gweithle. Eir ati i fyfyrio gan ddilyn model o arfer myfyriol sydd wedi'i integreiddio'n rhagorol drwyddi draw. Mae anghenion datblygu yn ymwneud â'r 3 chanlyniad dysgu wedi'u nodi'n glir; gan gydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. Myfyriwyd yn feirniadol ar y rhain i safon ragorol ac mae'r anghenion dysgu dros y 12 mis sydd i ddod (ers cychwyn y rhaglen) a sut y bodlonir y rhain wedi'u nodi'n gynhwysfawr. **Rhan b** Myfyrio beirniadol rhagorol sy'n ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad cynhwysfawr at yr holl hyfforddiant a gyflawnwyd, ystod eang o ddysgu a gyflawnwyd, ymchwil cyd-destunol ychwanegol a'r defnydd o oruchwyliaeth a hyfforddiant. Eir ati i fyfyrio gan ddilyn model o arfer myfyriol. Dynodwyd anghenion dysgu ar ddechrau'r rhaglen a rhoddwyd ystyriaeth drwyadl i gyflawni'r anghenion dysgu hyn drwy drafodaeth â staff perthnasol. Dynodwyd a chytunwyd ar anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn ofynnol er mwyn datblygu'n effeithiol i fod yn ymarferydd profiadol. Gwelwyd myfyrio cynhwysfawr ar yr adborth a gafwyd gan amrywiaeth o bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr, a chysylltwyd hyn â'r modd y mae'r adborth hwn wedi llywio datblygiad proffesiynol i'r dyfodol. Sgiliau Academaidd Sgiliau academaidd a deallusol rhagorol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n fanwl gywir ac mae'r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw. Defnydd rhagorol o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi'n gywir.
TEILYNGDOD 60+-69
Mae rhannau a b o Dasg 1 o safon dda iawn. **Rhan a** Cyflwynir dadansoddiad da iawn o anghenion dysgu yng nghyswllt arfer proffesiynol ers cymhwyso ac mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau'n dda iawn ar ôl cael eu trafod gyda gweithwyr priodol yn y gweithle. Eir ati i fyfyrio gan ddilyn model o arfer myfyriol sydd wedi'i integreiddio'n dda iawn drwyddi draw. Mae anghenion datblygu yn ymwneud â'r 3 chanlyniad dysgu wedi'u nodi'n glir; cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol

mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. Myfyriwyd ar y rhain ac mae'r anghenion dysgu dros y 12 mis sydd i ddod (ers cychwyn y rhaglen) a sut y bodlonir y rhain wedi'u nodi'n dda iawn gan fyfyrio arnynt yn feirniadol.

Rhan b
Myfyrio beirniadol da iawn sy'n ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau da iawn at yr holl hyfforddiant a gyflawnwyd, ystod dda o ddysgu a gyflawnwyd, ymchwil cyd-destunol ychwanegol a'r defnydd o oruchwyliaeth a hyfforddiant. Eir ati i fyfyrio gan ddilyn model o arfer myfyriol. Dynodwyd anghenion dysgu ar ddechrau'r rhaglen a rhoddwyd ystyriaeth dda iawn i gyflawni'r anghenion dysgu hyn drwy drafodaeth â staff perthnasol. Dynodwyd a chytunwyd ar anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn ofynnol er mwyn datblygu i fod yn ymarferydd profiadol. Gwelwyd myfyrio effeithiol ar yr adborth a gafwyd gan amrywiaeth o bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr, a chysylltwyd hyn â'r modd y mae'r adborth hwn wedi llywio datblygiad proffesiynol i'r dyfodol.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae'r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw.

Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.

LLWYDDO 50-59

Mae rhannau **a b** o Dasg 1 o safon dda.

Rhan a
Cyflwynir dadansoddiad da o anghenion dysgu yng nghyswllt arfer proffesiynol ers cymhwyso ac mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau'n dda ar ôl cael eu trafod gyda staff priodol. Eir ati i fyfyrio'n gyffredinol gydag ymdrech i ddilyn model o arfer myfyriol. Mae anghenion datblygu yn ymwneud â'r 3 chanlyniad dysgu wedi'u nodi'n glir; cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. Adfyfyriwyd ar y rhain hefyd ac mae'r anghenion dysgu dros y 12 mis sydd i ddod (ers cychwyn y rhaglen) a sut y bodlonir y rhain wedi'u nodi'n dda gan fyfyrio arnynt.

Rhan b
Myfyrio beirniadol da sy'n ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau da at yr holl hyfforddiant a gyflawnwyd, ystod dda o ddysgu a gyflawnwyd, ymchwil ychwanegol a'r defnydd o oruchwyliaeth a hyfforddiant. Eir ati i fyfyrio'n gyffredinol gydag ymdrech i ddilyn model o arfer myfyriol. Dynodwyd anghenion dysgu ar ddechrau'r rhaglen a rhoddwyd ystyriaeth dda i gyflawni'r anghenion dysgu hyn drwy drafodaeth â staff perthnasol. Gwelwyd myfyrio ar yr adborth a gafwyd gan bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr, a chysylltwyd hyn â'r modd y mae'r adborth hwn wedi llywio datblygiad proffesiynol i'r dyfodol.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol da, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae’r cyflwyniad wedi’i strwythuro’n dda ac mae tystiolaeth o ymchwil yn bresennol.

Defnydd da o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.

LLWYDDO 40-49

Mae rhannau **a b** o Dasg 1 o safon foddhaol.

Rhan a
Cyflwynir adolygiad boddhaol o anghenion dysgu yng nghyswllt arfer proffesiynol ers cymhwyso ac mae’r rhain wedi'u nodi ar ôl cael eu trafod gyda staff priodol yn y gweithle. Eir ati i fyfyrio’n gyffredinol gan roi ystyriaeth i fodel myfyriol. Mae anghenion datblygu yn ymwneud â’r 3 chanlyniad dysgu wedi’u nodi’n glir; cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth. Rhoddwyd sylw i’r rhain hefyd ac mae’r anghenion dysgu dros y 12 mis sydd i ddod (ers cychwyn y rhaglen) a sut y bodlonir y rhain wedi’u nodi a’u trafod.

Rhan b
Myfyrio boddhaol sy’n ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at hyfforddiant a gyflawnwyd, ystod o ddysgu a gyflawnwyd, rhywfaint o ymchwil a’r defnydd o oruchwyliaeth. Ceir tystiolaeth o fyfyrio gan roi ystyriaeth i fodel myfyriol. Dynodwyd anghenion dysgu ar ddechrau'r rhaglen a rhoddwyd ystyriaeth i gyflawni’r anghenion dysgu hyn drwy drafodaeth â staff perthnasol. Nodwyd adborth a gafwyd gan bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu’u gofalwyr, a chysylltwyd hyn â’r modd y mae’r adborth hwn wedi llywio datblygiad proffesiynol i’r dyfodol.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy’n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau’n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae gan y cyflwyniad strwythur derbyniol a thystiolaeth o rywfaint o ymchwil.

Defnydd boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith a rhai ffynonellau wedi'u cyfeirnodi.

METHU 0-39

Nid ymdrinnir â phob elfen o’r cwestiwn.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol anfoddhaol, gyda dealltwriaeth annigonol o fyfyrio a gwerthuso. Methu a thrafod na datrys problemau o ran y ddisgyblaeth. Yn ddisgrifiadol yn bennaf.

Anhawster cyffredinol gyda’r strwythur a mynegiant cywir gyda fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymchwil. Heb unrhyw allu i gyfeirio’i ddysgu’i hun.

Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda dim defnydd neu ddefnydd cyfyngedig iawn o gyfeiriadau. Nid yw pob cyfeiriad wedi’i gynnwys yn y rhestr gyfeiriadau.

Tasg 2 – Arsylwi ar Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

RHAGORIAETH - 70+

Cyd-destun
Disgrifiad cynhwysfawr a chryno o gyd-destun yr arsylwi sy'n ymdrin yn rhagorol â'r holl ofynion o ran amcanion gwaith cymdeithasol, anghenion daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol, ac sy'n dangos perthnasedd llawn yr holl faterion. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth o'r modd y cafwyd cydsyniad ac effaith yr arsylwi ar yr unigolyn.

Myfyrio ar yr Arsylwi ar Ymarfer
Myfyrio beirniadol rhagorol ar y defnydd o ystod o ddulliau a sgiliau cyfathrebu yn ystod sesiwn o arsylwi ar ymarfer. Mae'r dysgwr wedi nodi'n glir y sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i weithio gyda'r person sydd angen gofal a chymorth a/neu'i ofalwyr. Mae'r myfyrio yn dystiolaeth effeithiol iawn o ddull person-ganolog, y ffordd y mae'r dysgwr wedi glynu wrth werthoedd gwaith cymdeithasol a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Ceir tystiolaeth glir o ymarfer sy'n dangos sensitifrwydd at ddiwylliant, dealltwriaeth o anghenion iaith gan gynnwys egwyddorion y "Cynnig Rhagweithiol", ac arfer moesegol. Drwy egluro'r amgylchiadau sicrheir tystiolaeth ragorol o'r sesiwn a bod y dysgwr yn myfyrio'n feirniadol ar ei arfer ei hun o ran pob un o'ch uchod.
Mae'r arsylwr, sy'n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau'r arsylwi a'r myfyrio cysylltiedig.

Y Cyd-destun Cymreig
Mae'r myfyrio manwl ar brofiadau personol yn darparu dadl resymegol ynghylch pam mae'n rhaid i iaith fod yn rhan greiddiol o'r asesu a darparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys ystod o enghreifftiau o'r modd y mae cyfathrebu effeithiol yn dylanwadu ar ymarfer gwaith cymdeithasol da o ran defnydd o iaith, anghenion iaith a sensitifrwydd at ddiwylliant.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol rhagorol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n fanwl gywir ac mae'r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw.

Defnydd rhagorol o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi'n gywir.

TEILYNGDOD 60+-69

Cyd-destun
Disgrifiad da iawn a chryno o gyd-destun yr arsylwi sy'n ymdrin â'r holl ofynion o ran anghenion daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol ac sy'n rhoi tystiolaeth o berthnasedd llawn yr holl faterion. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth o'r modd y cafwyd cydsyniad ac effaith yr arsylwi ar yr unigolyn.

Myfyrio ar yr Arsylwi ar Ymarfer
Myfyrio beirniadol da iawn ar y defnydd a wnaethoch o nifer o ddulliau a sgiliau cyfathrebu yn ystod sesiwn arsylwi ar ymarfer. Mae'r dysgwr wedi nodi'r sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i weithio gyda'r person sydd angen gofal a chymorth a/neu'i ofalwyr. Mae'r myfyrio'n dystiolaeth o ddull person-ganolog effeithiol, y ffordd y mae'r dysgwr wedi glynu wrth werthoedd gwaith cymdeithasol a'r Cod

Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Ceir tystiolaeth dda iawn o ymarfer sy'n dangos sensitifrwydd at ddiwylliant, anghenion iaith gan gynnwys egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol", ac arfer moesegol. Drwy egluro'r amgylchiadau sicrheir tystiolaeth dda iawn o'r sesiwn a bod y dysgwr yn myfyrio'n feirniadol ar ei arfer ei hun o ran pob un o'ch uchod.
Mae'r arsylwr, sy'n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau'r arsylwi a'r myfyrio cysylltiedig.

Y Cyd-destun Cymreig
Mae'r myfyrio manwl ar brofiadau personol yn darparu dadl dda iawn ynghylch pam mae'n rhaid i iaith fod yn rhan greiddiol o'r asesu a darparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o'r modd y mae cyfathrebu'n effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol o ran defnydd o iaith, anghenion iaith a sensitifrwydd at ddiwylliant.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae'r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw.

Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.

LLWYDDO 50-59

Cyd-destun
Trafodaeth dda a chlir o gyd-destun yr arsylwi sy'n ymdrin â'r gofynion o ran anghenion daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol ac sy'n rhoi tystiolaeth o berthnasedd yr holl faterion. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth o'r modd y cafwyd cydsyniad ac effaith yr arsylwi ar yr unigolyn.

Myfyrio ar yr Arsylwi ar Ymarfer
Myfyrio da ar ddefnydd y dysgwr o ddulliau a sgiliau cyfathrebu yn ystod sesiwn arsylwi ar ymarfer. Mae'r dysgwr wedi nodi'r sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i weithio gyda'r person sydd angen gofal a chymorth a/neu'i ofalwyr. Mae'r myfyrio'n dystiolaeth o ddull person-ganolog, y ffordd y mae'r dysgwr wedi dilyn gwerthoedd gwaith cymdeithasol a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Ceir tystiolaeth eithaf da o ymarfer sy'n dangos sensitifrwydd at ddiwylliant, anghenion iaith gan gynnwys egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol", ac arfer moesegol. Drwy egluro'r amgylchiadau sicrheir tystiolaeth dda o'r sesiwn a bod y dysgwr yn myfyrio'n feirniadol ar ei arfer ei hun o ran pob un o'ch uchod.
Mae'r arsylwr, sy'n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau'r arsylwi a'r myfyrio cysylltiedig.

Y Cyd-destun Cymreig
Mae'r myfyrio ar brofiadau personol yn darparu dadl ynghylch pam ei bod yn rhaid i iaith fod yn rhan greiddiol o'r asesu. Mae hyn yn cynnwys rhai enghreifftiau o'r modd y mae cyfathrebu'n effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol da / boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae’r cyflwyniad wedi’i strwythuro’n dda ac mae tystiolaeth o ymchwil yn bresennol.

Defnydd da / boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.

LLWYDDO 40-49

Cyd-destun
Amlinelliad o gyd-destun yr arsylwi sy’n ymwneud â’r rhan fwyaf o’r gofynion o ran anghenion daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth o’r modd y cafwyd cydsyniad ac effaith yr arsylwi ar yr unigolyn.

Myfyrio ar yr Arsylwi ar Ymarfer
Myfyrio boddhaol ar ddefnydd y dysgwr o ddulliau a sgiliau cyfathrebu yn ystod sesiwn arsylwi ar ymarfer. Mae’r dysgwr wedi cynnwys y sgiliau cyfathrebu sy’n angenrheidiol i weithio gyda’r person sydd angen gofal a chymorth a/neu’i ofalwyr. Mae’r drafodaeth yn dangos peth tystiolaeth o ddull person-ganolog, y ffordd y mae’r dysgwr wedi glynu wrth werthoedd gwaith cymdeithasol a’r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Mae ymarfer sy’n dangos sensitifrwydd at ddiwylliant, anghenion iaith gan gynnwys egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol", ac arfer moesegol yn amlwg. Drwy egluro’r amgylchiadau sicrheir tystiolaeth o’r sesiwn a bod y dysgwr yn myfyrio ar ei arfer ei hun o ran yr uchod. Mae’r arsylwr, sy’n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau’r arsylwi a’r myfyrio cysylltiedig.

Y Cyd-destun Cymreig
Ceir myfyrio ar brofiadau personol gyda thrafodaeth am yr angen i iaith fod yn ystyriaeth wrth asesu. Mae rhai enghreifftiau wedi’u cynnwys o’r modd y mae cyfathrebu’n effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol sylfaenol, yn cynnwys gwybodaeth sy’n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau’n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae gan y cyflwyniad strwythur derbyniol a thystiolaeth o rywfaint o ymchwil.

Defnydd sylfaenol o ramadeg, sillafu ac iaith a rhai ffynonellau wedi'u cyfeirnodi.

METHU 0-39

Nid ymdrinnir â phob elfen o’r cwestiwn.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol anfoddhaol, gyda gwybodaeth annigonol o fyfyrio, gwerthuso a datrys problemau’n ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Methu a thrafod na datrys problemau o ran y ddisgyblaeth. Yn ddisgrifiadol yn bennaf o hyd.

Anhawster cyffredinol gyda’r strwythur a mynegiant cywir gyda fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymchwil. Heb unrhyw allu i gyfeirio’i ddysgu’i hun.

Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda dim defnydd neu ddefnydd cyfyngedig iawn o gyfeiriadau. Nid yw pob cyfeiriad wedi’i gynnwys yn y rhestr gyfeiriadau.

Tasg 3 - Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth - Astudiaeth Achos (Prif faes gwaith)

RHAGORIAETH - 70+

Astudiaeth achos ragorol a chynhwysfawr sy'n seiliedig ar waith ac sy'n feirniadol adfyfyriol, sy'n ymdrin â holl adrannau'r meini prawf asesu a chanlyniadau dysgu gofynnol, ac sy'n glynu wrth y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Caiff y rhain eu cyflawni i'r un safon uchel ac mae'r dysgwr yn dangos yn glir sut mae'r achos yn berthnasol neu sut y gallai fod yn berthnasol i ddeddfwriaeth, polisïau, strategaethau a gweithdrefnau'n ymwneud â diogelu.

Mae'r astudiaeth achos, sy'n broffesiynol berthnasol, yn dangos yn glir wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr a chynhwysfawr o ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. Mae hefyd yn sicrhau tystiolaeth ragorol o gydweithio 'ag eraill', (e.e. unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill) ar asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn** (maes gwaith y dysgwr). Mae'r dysgwr wedi rhoi ystyriaeth ragorol, cynhwysfawr a methodolegol gadarn i ddadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau'n effeithiol.

Mae'r myfyrio beirniadol wedi'i seilio'n gadarn ar ystod eang o ddamcaniaethau a modelau priodol y ceir tystiolaeth a ffynonellau rhagorol ar eu cyfer. Mae'r ystod eang o ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r astudiaeth achos yn rhoi tystiolaeth o ddealltwriaeth eglur o ddilemâu, gwerthoedd a gwrthdaro yn ymwneud â diogelu, a rhoddir sylw manwl i'r rheini a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r cyflwyniad o'r deilliannau, yn cynnwys yr adnoddau a ddefnyddiwyd a'r myfyrio ar y dysgu, yn rhagorol a'r arddull a'r strwythur yn briodol. Defnyddiwyd amrywiaeth eithriadol o eirfa a'i chymhwyso ar y lefel gywir, gan ddarparu astudiaeth achos ragorol ar y lefel astudio briodol.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Caiff maes ymarfer penodol y dysgwr ei gynrychioli'n effeithiol a cheir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gofynion deddfwriaethol penodol o ran diogelu. Mae hyn yn cynnwys amlinellu dealltwriaeth ragorol o'r rhyng-gysylltiad rhwng darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a'r tu allan i'r UE (e.e. Elfennau penodol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015, Deddf Hawliau Dynol 1998, deddfwriaeth Confensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989, deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Iechyd a Diogelwch yn cynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Y Cyd-destun Cymreig

Mae'r myfyrio ar brofiad personol yn rhoi tystiolaeth o'r heriau penodol a wynebir o fewn y Sector Gofal yng Nghymru. Mae'n amlwg bod y rhain wedi'u seilio ar safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol ddynodedig yr ymarfer ac maent yn dangos dealltwriaeth ragorol o'r diwylliant, y sefydliadau a'r ieithoedd sy'n cael eu siarad. Mae hyn wedi'i gefnogi'n rhagorol o fewn cyd-destun yr astudiaeth achos a'r cyd-destun ehangach yr ymchwiliwyd iddo.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol rhagorol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio beirniadol, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae’r cyflwyniad wedi’i strwythuro’n fanwl gywir ac mae’r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw.

Defnydd rhagorol o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi’n gywir.

TEILYNGDOD 60+-69

Astudiaeth achos dda iawn a chynhwysfawr sy’n seiliedig ar waith ac sy’n feirniadol adfyfyriol, sy’n ymdrin â holl adrannau’r meini prawf asesu a chanlyniadau dysgu gofynnol, ac sy’n glynu wrth y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Caiff y rhain eu cyflawni i safon dda iawn ac mae’r dysgwr yn dangos yn glir sut mae’r achos yn berthnasol neu sut y gallai fod yn berthnasol i ddeddfwriaeth, polisïau, strategaethau a gweithdrefnau’n ymwneud â diogelu.

Mae’r astudiaeth achos, sy’n broffesiynol berthnasol, yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth. Mae hefyd yn dangos tystiolaeth o’r dysgwr yn cydweithio ‘ag eraill', (e.e. pobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill) ar asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn (maes gwaith y dysgwr**). Mae’r dysgwr wedi rhoi ystyriaeth dda iawn a methodolegol gadarn i ddadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau yn effeithiol.

Mae’r myfyrio wedi’i seilio ar ystod o ddamcaniaethau y ceir tystiolaeth a ffynonellau da ar eu cyfer. Mae’r ystod o ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae’r astudiaeth achos yn rhoi tystiolaeth o ddealltwriaeth eglur o ddilemâu, gwerthoedd a gwrthdaro yn ymwneud â diogelu, a rhoddir sylw iddynt a’u rheoli’n effeithiol. Roedd y cyflwyniad o’r deilliannau, yn cynnwys yr adnoddau a ddefnyddiwyd a’r myfyrio ar y dysgu, yn dda iawn a’r arddull a’r strwythur yn briodol. Mae’r ystod o eirfa a ddefnyddir wedi’i chymhwyso ar y lefel gywir. Astudiaeth achos dda iawn ac effeithiol ar y lefel astudio briodol.

Cyd-destun Deddfwriaethol
Caiff maes ymarfer penodol y dysgwr ei gynrychioli'n dda iawn a cheir dealltwriaeth dda o'r gofynion deddfwriaethol o ran diogelu. Mae hyn yn cynnwys amlinellu dealltwriaeth dda iawn o’r rhyng-gysylltiad rhwng darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a’r tu allan i’r UE (e.e. Elfennau penodol o’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), 2015, Deddf Hawliau Dynol 1998, deddfwriaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn 1989, deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Iechyd a Diogelwch yn cynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Y Cyd-destun Cymreig
Mae’r myfyrio ar enghreifftiau o brofiad personol yn rhoi tystiolaeth o’r heriau penodol a wynebir o fewn y Sector Gofal yng Nghymru. Mae’r rhain wedi’u seilio ar safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol ddynodedig yr ymarfer ac maent yn dangos dealltwriaeth o’r diwylliant, y sefydliadau a’r ieithoedd sy’n cael eu siarad. Mae hyn wedi’i gefnogi’n dda iawn o fewn cyd-destun yr astudiaeth achos a’r cyd-destun ehangach yr ymchwiliwyd iddo.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae'r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw.

Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.

LLWYDDO 50-59

Astudiaeth achos dda sy'n seiliedig ar waith ac sy'n adfyfyriol, sy'n ymdrin â holl adrannau'r meini prawf asesu a chanlyniadau dysgu gofynnol, ac sy'n glynu wrth y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.
Caiff y rhain eu cyflawni i safon dda ac maent yn dangos yn glir sut mae'r achos yn berthnasol neu sut y gallai fod yn berthnasol i ddeddfwriaeth, polisïau, strategaethau a gweithdrefnau'n ymwneud â diogelu.

Mae'r astudiaeth achos, sy'n broffesiynol berthnasol, yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth. Mae hefyd yn dangos tystiolaeth o'r dysgwr yn cydweithio 'ag eraill', (e.e. pobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill) ar asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn (maes gwaith y dysgwr).** Mae'r dysgwr wedi rhoi ystyriaeth gadarn i ddadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau yn effeithiol.

Mae'r myfyrio wedi'i seilio ar nifer o ddamcaniaethau y ceir tystiolaeth a ffynonellau ar eu cyfer. Mae'r ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfredol. Mae'r astudiaeth achos yn rhoi tystiolaeth o ddealltwriaeth eglur o ddilemâu, gwerthoedd a gwrthdaro yn ymwneud â diogelu, y rhoddir sylw iddynt a'u rheoli. Mae arddull a strwythur da yn y cyflwyniad o'r deilliannau, yn cynnwys yr adnoddau a ddefnyddiwyd a'r myfyrio ar y dysgu. Mae'r eirfa ar y lefel gywir. Astudiaeth achos dda ac effeithiol ar y lefel astudio briodol.

Cyd-destun Deddfwriaethol
Mae maes ymarfer penodol y dysgwr yn cael sylw yn y drafodaeth a cheir dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol o ran diogelu. Mae hyn yn cynnwys amlinellu dealltwriaeth dda iawn o'r rhyng-gysylltiad rhwng darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a'r tu allan i'r UE (e.e. Maes penodol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015, Deddf Hawliau Dynol 1998, deddfwriaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989, deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Iechyd a Diogelwch yn cynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Y Cyd-destun Cymreig
Mae'r myfyrio ar enghreifftiau o brofiad personol yn rhoi tystiolaeth o'r heriau a wynebir o fewn y Sector Gofal yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u seilio ar safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol ddynodedig yr ymarfer ac maent yn dangos dealltwriaeth o'r cyd-destun. Mae hyn wedi'i gefnogi'n dda o fewn cyd-destun yr astudiaeth achos a'r cyd-destun ehangach.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol da / boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae’r cyflwyniad wedi’i strwythuro’n dda ac mae tystiolaeth o ymchwil yn bresennol.

Defnydd da / boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.

LLWYDDO 40-49

Astudiaeth achos foddhaol sy’n seiliedig ar waith, sy’n dangos rhywfaint o dystiolaeth o fyfyrio, sy’n ymdrin â holl adrannau’r meini prawf asesu a chanlyniadau dysgu gofynnol, ac sy’n glynu wrth y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Caiff y rhain eu cyflawni i safon foddhaol ac maent yn dangos yn glir sut mae’r achos yn berthnasol neu sut y gallai fod yn berthnasol i ddeddfwriaeth, polisïau, strategaethau a gweithdrefnau’n ymwneud â diogelu.

Mae’r astudiaeth achos yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ymyriadau a chymhwyso barn broffesiynol, a ddangosir trwy gymhwyso effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. Mae’n dangos tystiolaeth o’r dysgwr yn gweithio ‘ag eraill', (e.e. pobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill) ar asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn (maes gwaith y dysgwr).** Mae’r dysgwr wedi rhoi ystyriaeth yn y drafodaeth i ddadansoddi wrth asesu sydd wedi llywio’r ymyriadau.

Mae’r myfyrio wedi’i seilio ar nifer cyfyngedig o ddamcaniaethau y ceir tystiolaeth a ffynonellau ar eu cyfer. Mae’r ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfredol gan mwyaf. Mae’r astudiaeth achos yn dangos dealltwriaeth o ddilemâu, gwerthoedd a gwrthdaro yn ymwneud â diogelu. Mae arddull a strwythur y cyflwyniad yn briodol. Yn gyffredinol mae’r eirfa’n briodol ac ar y lefel gywir. Astudiaeth achos addas ar y lefel astudio briodol.
Cyd-destun Deddfwriaethol
Mae maes ymarfer penodol y dysgwr yn cael sylw yn y drafodaeth a cheir peth dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys dangos dealltwriaeth foddhaol o’r rhyng-gysylltiad rhwng darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o fewn y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a’r tu allan i’r UE (e.e. y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), 2015, Deddf Hawliau Dynol 1998, deddfwriaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn 1989, deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Iechyd a Diogelwch yn cynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Y Cyd-destun Cymreig
Mae rhywfaint o’r myfyrio ar enghreifftiau o brofiad personol yn cyfeirio at yr heriau a wynebir o fewn y Sector Gofal yng Nghymru. Rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i’r rhain o safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol ddynodedig yr ymarfer, sy’n dangos dealltwriaeth o’r cyd-destun.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol sylfaenol, yn cynnwys gwybodaeth sy’n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau mewn damcaniaeth ac ymarfer.

Mae gan y cyflwyniad strwythur derbyniol a thystiolaeth o rywfaint o ymchwil.

Defnydd sylfaenol o ramadeg, sillafu ac iaith a rhai ffynonellau wedi'u cyfeirnodi.

METHU 0-39
Nid ymdrinnir â phob elfen o'r cwestiwn. **Sgiliau Academaidd** Sgiliau academaidd a deallusol anfoddhaol, gyda gwybodaeth annigonol o fyfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Methu a thrafod na datrys problemau o ran y ddisgyblaeth. Mae'n ddisgrifiadol yn bennaf. Anhawster cyffredinol gyda'r strwythur a mynegiant cywir gyda fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymchwil. Heb unrhyw allu i gyfeirio'i ddysgu'i hun. Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda dim defnydd neu ddefnydd cyfyngedig iawn o gyfeiriadau. Nid yw pob cyfeiriad wedi'i gynnwys yn y rhestr gyfeiriadau.

Tasg 4 - Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth - (Nid y prif faes gwaith)
RHAGORIAETH - 70+
Rhan a Esboniad ysgrifenedig ardderchog sy'n dangos dealltwriaeth y dysgwr o ddiogelu **oedolyn/plentyn (NID maes gwaith y dysgwr)**. Mae polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol, leol a sefydliadol perthnasol wedi'u hegluro'n gynhwysfawr. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn dynodi'n rhagorol y berthynas rhwng systemau ehangach sy'n gysylltiedig â diogelu yn y maes ymarfer. **Rhan b** Mae'r myfyrio a'r dadansoddi rhagorol ynghylch y gwahaniaethau rhwng diogelu mewn gwaith oedolion a gwaith plant wedi'i archwilio'n drylwyr. Sgiliau Academaidd Sgiliau academaidd a deallusol rhagorol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau mewn damcaniaeth ac ymarfer. Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n fanwl gywir ac mae'r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw. Defnydd rhagorol o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi'n gywir.
TEILYNGDOD 60+-69
Rhan a Esboniad ysgrifenedig da iawn sy'n dangos dealltwriaeth y dysgwr o waith diogelu gydag **oedolyn/plentyn (NID maes gwaith y dysgwr).** Mae polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol, leol a sefydliadol perthnasol wedi'u hegluro'n dda. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn dynodi'n dda iawn y berthynas rhwng systemau diogelu sy'n gysylltiedig â'r maes ymarfer. **Rhan b** Mae'r myfyrio a'r dadansoddi da iawn ynghylch y gwahaniaethau rhwng diogelu mewn gwaith oedolion a gwaith plant wedi'i archwilio'n glir. Sgiliau Academaidd Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau mewn damcaniaeth ac ymarfer. Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae'r dystiolaeth o ymchwil yn dryloyw. Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.
LLWYDDO 50-59
Rhan a Esboniad ysgrifenedig da sy'n dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth y dysgwr o waith diogelu gydag **oedolyn/plentyn (NID maes gwaith y dysgwr).** Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol, leol a sefydliadol perthnasol wedi'u hegluro. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn cynnwys y cysylltiadau rhwng systemau diogelu ehangach sy'n gysylltiedig â'r maes ymarfer.

Rhan b
Mae'r dadansoddi da ynghylch y gwahaniaethau rhwng diogelu mewn gwaith oedolion a gwaith plant wedi'i archwilio.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol da / boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro'n dda ac mae tystiolaeth o ymchwil yn bresennol.

Defnydd da / boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith a phob ffynhonnell wedi'i chyfeirnodi.

LLWYDDO 40-49

Rhan a
Mae'r asesiad ysgrifenedig yn dangos esboniad boddhaol o ddealltwriaeth y dysgwr o waith diogelu gydag **oedolyn/plentyn (NID maes gwaith y dysgwr**). Mae rhai polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol wedi'u hegluro. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn cynnwys ymgais i ystyried y cysylltiadau rhwng systemau ehangach sy'n gysylltiedig â'r maes ymarfer.

Rhan b
Mae trafodaeth foddhaol wedi'i chynnwys sy'n dangos peth dealltwriaeth ynghylch y gwahaniaeth rhwng diogelu mewn gwaith oedolion a gwaith plant.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol sylfaenol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi myfyrio, gwerthuso a datrys problemau'n ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae gan y cyflwyniad strwythur derbyniol a thystiolaeth o rywfaint o ymchwil.

Defnydd sylfaenol o ramadeg, sillafu ac iaith a rhai ffynonellau wedi'u cyfeirnodi.

METHU 0-39

Nid ymdrinnir â phob elfen o'r cwestiwn.

Sgiliau Academaidd
Sgiliau academaidd a deallusol anfoddhaol, gyda dealltwriaeth a gwybodaeth annigonol o'r maes pwnc.

Anhawster cyffredinol gyda'r strwythur a mynegiant cywir gyda fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymchwil. Heb unrhyw allu i gyfeirio'i ddysgu'i hun.

Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda dim defnydd neu ddefnydd cyfyngedig iawn o gyfeiriadau. Nid yw pob cyfeiriad wedi'i gynnwys yn y rhestr gyfeiriadau.

Y PORTFFOLIO – NODIADAU A CHANLLAWIAU

Modiwl: BMPF6044: Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

RHESTR O DERMAU A MEINI PRAWF

Mentor – Mae'r mentor yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad o waith cymdeithasol ar ôl ymgymhwyso (yn ddelfrydol, y rheolwr llinell neu ymarferydd profiadol addas arall o'r un tîm neu'r un maes gwaith â hwy). Ei rôl yw cynnig cymorth a chyfarwyddyd i'r dysgwr, pan fydd angen, wrth iddo gasglu tystiolaeth i gwblhau'r portffolio. Nid oes disgwyl i fentoriaid ragweld na rhagfynegi pa gyfarwyddwyd neu gefnogaeth fydd ei hangen, felly rhaid i'r dysgwr sicrhau ei fod yn glir ynglŷn â hyn gyda'i fentor. Ni ddisgwylir i fentoriaid fod yn arbenigwr ym mhob maes sydd wedi'i gynnwys yn y portffolio, ond dylent annog dysgwyr i ddefnyddio ymchwil, hyfforddiant a dysgu i lywio'u hymarfer ac i gasglu tystiolaeth ar gyfer y portffolio.

Arsylwr – Mae Tasg 2 o'r portffolio'n cynnwys yr angen i arsylwi ymarfer. Bydd yr Arsylwr yn mynd gyda'r dysgwr i gyfarfod gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr. Rhaid i'r Arsylwr fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ar ôl ymgymhwyso ac, yn ddelfrydol, ef fydd y mentor neu'r rheolwr llinell. Os nad yw hyn yn bosibl, gall unigolyn arall gyflawni'r rôl ar yr amod ei fod yn bodloni'r un meini prawf. Rhaid defnyddio'r profforma yn Nhasg 2 o'r portffolio i gofnodi'r arsylwi er gellir defnyddio fersiwn wahanol os gwelir bod hynny'n fwy priodol i gasglu adborth mwy manwl, o ystyried oedran, gallu ac anghenion y bobl sydd angen gofal a chymorth a neu'u gofalwyr.

Dylai'r bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr fod wedi derbyn eglurhad ynglŷn â'r broses, wedi rhoi eu caniatâd ymlaen llaw ac adeg cynnal yr arsylwi. Dylid eu hysbysu o flaen llaw y bydd Arsylwr yn bresennol ac y bydd yn gofyn am eu barn wedi i'r arsylwi ddigwydd. Cyfrifoldeb y dysgwr fydd trefnu hyn. Ni fydd disgwyl i'r Arsylwr gymryd rhan yn y cyfarfod.

Aseswr – Yr Aseswr yw'r unigolyn a fydd yn marcio'r portffolio a gyflwynir. Mae hyn yn golygu y bydd, yn ddelfrydol, yn dod o Awdurdod Lleol arall. Bydd y portffolio'n cael ei gyflwyno i'r brifysgol trwy Moodle ar ffurf dogfen Word heb lofnodion ar y profforma a ddarperir, a rhaid cyflwyno ail gopi gyda phob llofnod gwreiddiol i'r tîm hyfforddi/datblygu'r gweithlu fel PDF.

Rhaid i'r aseswr fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad mewn gwaith cymdeithasol ar ôl ymgymhwyso a bydd yn unigolyn sydd un ai'n hyrwyddo dysgu a datblygiad staff proffesiynol eraill neu'n dal cymhwyster priodol ym maes asesu.

Proses Farcio – Rhoddir 3 chyfle i ymgeiswyr gyflwyno eu gwaith ac mae'r holl gyflwyniadau'n cael eu marcio gan Weithiwr Cymdeithasol cymwys sydd wedi'i hyfforddi mewn asesu a chymedroli gan PCYDDS a'r Partneriaeth Porth Agored. Ni fydd eich gwaith yn cael ei farcio gyntaf gan unigolyn o'r awdurdod Unedol lle rydych yn gyflogedig.

Ystyrir bod unrhyw gyflwyniad a asesir gyda marc o 39% neu is yn fethiant, ac ail-farcir y gwaith.

Yn dilyn cwblhau'r holl farcio, cynullir panel cymedroli Cymru gyfan.

Yn y sefyllfa lle mae ymgeisydd yn methu cyfadran, bydd y Bwrdd Arholi yn penderfynu a oes modd rhoi cyfle i ailgyflwyno'r gwaith. Gellir cael gwybod am benderfyniadau'r Bwrdd Arholi drwy My TSD fel arfer o fewn 1 wythnos o'r Bwrdd Arholi. Bydd eich cofnod My TSD yn dangos canlyniad y Bwrdd Arholi a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ail-gyflwyniadau a roddwyd a chadarnhau dyddiadau cyflwyno.

Mewn sefyllfaoedd lle mae dysgwr wedi cael cyfle i ailgyflwyno gwaith bydd y marc yn cael ei gapio ar y marc pasio (40%).

Moodle - Tudalennau gwe'r Brifysgol sy'n darparu amgylchedd dysgu rhithwir i ddysgwyr gyda gwybodaeth am y rhaglen, deunyddiau dysgu, e-lyfrau a gwybodaeth am reolau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

CANLLAWIAU AR Y PORTFFOLIO

Cyfrinachedd

Mae'n bwysig na fydd modd adnabod unrhyw unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail y wybodaeth sydd yn y portffolio. Fodd bynnag, rhaid i chi wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfrinachedd yn Llawlyfr y Rhaglen;
- peidio ag enwi'ch Awdurdod Lleol na chyfeirio at unrhyw nodwedd ddaearyddol neu ffisegol neu nodwedd o fath arall a fydd yn rhoi modd i'w adnabod. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau yn y llyfryddiaeth at bolisïau, e.e. defnyddiwch y ffurf 'polisi awdurdod xxx';
- peidio ag enwi pobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr. Yn hytrach, rhaid defnyddio **rhifau, e.e. 1, 2, 3 etc. ac nid llythrennau**;
- peidio ag ysgrifennu gwybodaeth sy'n rhoi modd i adnabod pobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr yn anuniongyrchol drwy'r disgrifiad yr ydych yn ei roi. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at enwau, cydweithwyr, lleoedd (gan gynnwys ysbytai, ysgolion, trefi, pentrefi, strydoedd), digwyddiadau penodol a oedd wedi denu sylw ac y gellid eu hadnabod oherwydd cyhoeddusrwydd blaenorol, gweithwyr proffesiynol eraill neu unrhyw wybodaeth bersonol arall gan gynnwys cyflyrau meddygol neu gyflyrau eraill;
- bod yn bersonol gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau ar gyfrinachedd. Er y bydd canllawiau ac adborth ar gyfrinachedd yn cael eu rhoi mewn gweithdai cadarnhau ac yn adborth ffurfiol yr aseswr, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod cynnwys y portffolio'n gyson â'r gofynion am gyfrinachedd sydd wedi'u nodi uchod ac yn y llawlyfr.

SYLWER

Cofiwch mai CHI sy'n gyfrifol am y Portffolio. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar neb arall yr ydych yn gofyn am arweiniad neu gymorth ganddynt wrth ddatblygu'ch portffolio i sylwi ar unrhyw beth sy'n torri'r rheolau ar gyfrinachedd. Eich gwaith chi yw hwn a rhaid i chi dderbyn cyfrifoldeb llwyr dros gyfrinachedd. Mae'n bwysig iawn cwrdd â'r holl ofynion o ran cyfrinachedd. Gellir rhoi cosb am dorri rheolau ar gyfrinachedd drwy dynnu marciau neu ddyfarnu marc methu, gweler y llawlyfr am fanylion.
Sylwer os oes man doriad, tynnir 5 marc fesul tasg.
Am doriadau mwy difrifol, ni fydd y gwaith yn cael ei farcio.

Portfolio template
Mae templedi portffolio ar gael ar Moodle ac mae'n ofynnol i chi ddefnyddio'r fersiwn gywir ar gyfer eich carfan.

Iaith y Portffolio

Gellir cyflwyno portffolios yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n gyfuniad o'r ddwy iaith. Bydd pob darn o waith ysgrifenedig a gyflwynir lle y mae rhannau neu'r cyfan ohono yn Gymraeg yn cael ei asesu gan siaradwr Cymraeg ac ni fydd unrhyw waith yn cael ei gyfieithu.

Tasg 1 – Adolygu Datblygiad – Rhan a

Rhaid llenwi'r adran hon cyn dechrau adeiladu'r portffolio. Bydd angen i chi weithio gyda'ch mentor/rheolwr llinell i ganfod meysydd lle mae angen i chi nodi profiadau a dysgu perthnasol i sicrhau eich bod yn gallu cwblhau'r portffolio. Dylid cwblhau'r adran hon drwy ystyried y gwaith rydych wedi'i wneud ers ymgymhwyso, a'r trafodaethau gyda'ch mentor a'ch goruchwyliwr/ rheolwr llinell fel rhan o unrhyw gynllun datblygu unigol sydd gennych yn ei le eisoes, neu y byddwch yn cytuno arno gyda'ch rheolwr. Dylech amlinellu beth rydych wedi'i nodi a'i gytuno gyda'ch rheolwr a/neu'ch mentor ar gyfer eich datblygiad dros y 12 mis nesaf. Mae'n **rhaid** i chi ddangos sut rydych yn bwriadu bodloni'r 3 chanlyniad dysgu:

Wrth ystyried anghenion hyfforddi, bydd disgwyl i chi fod wedi dilyn hyfforddiant ar lefel briodol ar ddiogelu oedolion neu blant, yn ôl eich lleoliad gwaith, ac i fod wedi cymryd rhan mewn digwyddiad hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer y maes arall. Bydd disgwyl i ddysgwr sy'n gweithio gyda phlant fod wedi dilyn hyfforddiant llawn ar ddiogelu ar gyfer y lleoliad hwnnw, a digwyddiad hyfforddiant ymwybyddiaeth ar ddiogelu oedolion – ac i'r gwrthwyneb yn achos y rheini sy'n gweithio gydag oedolion. Hefyd, bydd disgwyl i chi fod wedi dilyn hyfforddiant addas ar asesu.

Yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant a drefnir gan gyflogwyr, rhaid i chi wneud y canlynol:

- bod yn bresennol mewn 5 diwrnod cyswllt gorfodol (sesiwn gynefino a phedwar gweithdy cadarnhau a gynhelir yn rhanbarthol ar 4 diwrnod ar wahân)
- ymgymryd â gwaith darllen ac ymchwil personol ynghylch yr achosion rydych yn ymwneud â nhw yn y gwaith, gyda chymorth ac arweiniad gan fentor profiadol. Yn ddelfrydol eich rheolwr llinell fyddai hwn, neu rywun sy'n eich goruchwylio.
- cysylltu â'ch timau hyfforddi/datblygu'r gweithlu yn lleol am unrhyw arweiniad neu gefnogaeth ychwanegol y bydd ei angen.
- cymryd rhan mewn proses werthuso ar ddiwedd y rhaglen sy'n cynnwys cwblhau a dychwelyd ffurflenni arolwg, a/neu fynychu grwpiau ffocws.
- Wrth ystyried anghenion hyfforddi, disgwylir eich bod wedi mynychu hyfforddiant i lefel briodol ar ddiogelu oedolion neu blant yn unol â'ch lleoliad gwaith, ac y byddai'n ddefnyddiol i chi fynychu digwyddiad hyfforddi lefel ymwybyddiaeth ar y llall. Disgwylir i ddysgwr sy'n gweithio gyda phlant fynychu hyfforddiant diogelu llawn ar gyfer y lleoliad honno, a digwyddiad lefel ymwybyddiaeth ar gyfer diogelu oedolion – ac i'r gwrthwyneb ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gydag oedolion. Yn ychwanegol, disgwylir eich bod wedi mynychu hyfforddiant addas ar asesiad sy'n berthnasol i'ch rôl.

GWEITHDAI CADARNHAU:

Bydd y gweithdai hyn yn cael eu cynnal yn rhanbarthol i'ch cynorthwyo i gwblhau'r portffolios a darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gynnydd yn ogystal â pheth adborth ffurfiannol am eich portffolios. Mae presenoldeb yn y gweithdai hyn yn orfodol. Bydd gwybodaeth ar gael am y gweithdai drwy'r unedau hyfforddi/datblygu'r gweithlu yn lleol ac ar Moodle.

Tasg 1 – Adolygiad Datblygiadol – Rhan a

Mae'r adran hon i'w chwblhau cyn i'r gwaith adeiladu portffolio ddechrau. Mae angen i chi weithio gyda'ch mentor/rheolwr llinell i adnabod meysydd lle y gallai angen i chi adnabod profiadau a dysgu perthnasol er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cwblhau'r portffolio. Dylid cwblhau'r adran hon drwy ystyried y gwaith y byddwch wedi'i wneud ers cymhwyso, a thrafodaethau gyda'ch mentor a'ch goruchwyliwr/rheolwr llinell fel rhan o unrhyw gynllun datblygu unigol sydd gennych eisoes ar waith – neu y byddwch yn cytuno arno â'ch rheolwr – a dylai amlinellu'r hyn rydych wedi'i nodi a'i gytuno gyda'ch rheolwr a/neu fentor ar gyfer eich datblygiad dros y 12 mis nesaf.
Rhaid i chi ddangos sut ydych yn bwriadu bodloni canlyniadau dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru 3 a chyfeirio at sut mae'r goruchwylio, yr hyfforddiant, y dysgu a'r ymchwil wedi llywio'ch ymarfer.

Tasg 1b – Adolygiad Datblygiadol rhan b

Rhaid cwblhau'r Dasg hon, pan fydd adrannau eraill y portffolio wedi'u cwblhau. Diben y dasg hon yw:

- Eich caniatáu i fyfyrio'n feirniadol ar eich datblygiad ers ysgrifennu Tasg 1 – rhan a;
- gwerthuso canlyniadau'n feirniadol yn erbyn y cynllun gwreiddiol yn Nhasg 1, rhan a;
- adnabod unrhyw anghenion ychwanegol i gefnogi eich datblygiad wrth drosglwyddo i fod yn ymarferydd profiadol yn eich gyrfa yn y dyfodol;
- ystyried adborth a gafwyd gan bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu eu gofalwyr, a myfyrio ar sut y gall yr adborth hwn i lywio eich datblygiad proffesiynol yn y dyfodol.

Tasg 2 - Arsylwi

Rhaid arsylwi ar waith uniongyrchol gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr. Ni chaniateir arsylwi ar gyflwyno tystiolaeth mewn llys, cyfarfodydd o grwpiau strategaeth, cynadleddau achos na thribiwnlysoedd nac unrhyw weithgarwch anuniongyrchol arall. Rhaid i chi ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan y bobl sydd angen cymorth a gofal a/neu'u gofalwyr er mwyn cynnal yr arsylwi a chadarnhau hyn eto adeg yr arsylwi.

Meini prawf ar gyfer yr Arsylwr: Rhaid i'r arsylwr fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ar ôl ymgymhwyso ac, yn ddelfrydol, ef fydd eich mentor/rheolwr llinell.

Rhaid i'r arsylwi bara o leiaf 30 munud.

Gallwch naill ai roi'r profforma a ddarperir yn Nhasg Portffolio 2 i'r Arsylwr i gofnodi safbwyntiau'r unigolyn ar ôl arsylwi ar bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr, neu gallwch lunio eich dull/ffurflen eich hun i gael adborth gan yr unigolyn os teimlwch y gellir casglu adborth mwy manwl,yn dibynnu ar oedran, gallu ac anghenion.

Canllawiau i'r Arsylwr: Dylai'r person sydd angen gofal a chymorth a/neu'i ofalwyr fod wedi'u hysbysu ymlaen llaw y byddwch yn bresennol gyda'r dysgwr a rhaid cadarnhau eu bod yn cydsynio i hyn ar ddechrau'r arsylwi. Ni ddisgwylir i chi gymryd

rhan yn y cyfarfod. Disgwylir i chi lofnodi i gadarnhau bod sylwadau ysgrifenedig y dysgwr am yr arsylwi yn gofnod cywir o'r hyn a ddigwyddodd.

Ar ôl y cyfarfod rhwng y dysgwr a'r unigolyn (y person sydd angen gofal a chymorth a/neu'i ofalwyr), bydd angen i'r arsylwr ofyn am gael cyfarfod byr â'r unigolyn/unigolion heb i'r dysgwr fod yn bresennol er mwyn cael eu barn. Rhaid i'r arsylwr egluro y bydd eu sylwadau'n cael eu rhannu â'r dysgwr ac yn cael eu defnyddio ar gyfer eu datblygiad proffesiynol. Dylid dweud wrthynt hefyd y bydd copi o'u hadborth dienw yn cael ei gynnwys ym mhortffolio'r dysgwr. Ni ddylai'r dysgwr fod yn bresennol wrth gwblhau'r adborth. Mae cyfres o gwestiynau yn Nhasg 2 o'r portffolio y gellir eu defnyddio fel fframwaith i'ch trafodaeth â'r bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu'u gofalwyr. Caiff yr arsylwr newid neu aralleirio'r cwestiynau fel y bo'n briodol yn eu barn nhw, a chofnodi'r ymatebion ar y profforma a ddarperir yn Nhasg 2. Gall y dysgwr lunio dull gwahanol o gael adborth i'w ddefnyddio gan yr arsylwr fydd yn gweddu i anghenion yr unigolyn, gan ddibynnu ar oedran, gallu ac anghenion iaith/cyfathrebu y person sydd angen gofal a chymorth a/neu'i ofalwyr sy'n rhan o'r arsylwi.

Tasg 3 – Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth – astudiaeth achos

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynnu ei bod yn rhaid i chi gynnal asesiad gydag eraill (sy'n golygu gweithwyr proffesiynol a fyddai'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol ac eraill sy'n ymwneud ag asesu ar gyfer diogelu naill ai oedolyn neu blentyn.

Arweiniad
Rhaid i'r dysgwyr gwblhau astudiaeth achos myfyriol beirniadol yn seiliedig ar asesiad y maent hwy wedi'i gynnal gydag eraill, yn eu maes gwaith eu hunain ynghylch diogelu oedolyn neu blentyn ers dechrau'r rhaglen gadarnhau. Rhaid iddynt ddangos sut mae'r achos yn ymwneud â deddfwriaeth ddiogelu, polisïau, strategaethau a gweithdrefnau (gan gynnwys dangos dealltwriaeth o'r rhyngwyneb rhwng darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gyda'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r tu allan i'r UE) neu sut y gallai fod yn berthnasol iddynt. Rhaid i dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth o integreiddio dadansoddi mewn asesu, cydweithio, a barn proffesiynol mewn sefyllfaoedd gynyddol gymhleth, a'r defnydd o theorïau gwaith cymdeithasol. Rhaid iddynt gyfeirio at y dimensiynau penodol o weithio yng Nghymru.

Mae'n rhaid i'r astudiaeth achos yn Nhasg 3 fod yn gysylltiedig â'ch maes gwaith chi h.y. os ydych yn gweithio ym maes diogelu Plant, yna dylech ysgrifennu am hynny, neu i'r gwrthwyneb os ydych chi'n gweithio mewn gwasanaethau oedolion. Sylwer y bydd yr adran hon yn ymdrin ag ystod eang o ganlyniadau dysgu ac fe'ch cynghorir i fod yn glir ynghylch yr hyn sydd angen rhoi tystiolaeth ohono yn yr astudiaeth achos hon. Mae Atodiad 4 yn nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen o ganlyniadau dysgu ym mhob adran o'r portffolio.

Tasg 4 – Diogelu mewn maes sydd ddim yn brif faes gwaith i chi

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynnu ei bod yn rhaid i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth o ddiogelu oedolion a diogelu plant. Felly, yn Nhasg 4 rhaid i chi ddangos bod gennych wybodaeth a dealltwriaeth o'r ddau. Os ydych wedi ysgrifennu am ddiogelu oedolion yn Nhasg 3 y portffolio, rhaid i chi ysgrifennu am ddiogelu plant yn Nhasg 4, ac i'r gwrthwyneb. Nid oes rhaid seilio Tasg 4 ar waith gwirioneddol a gyflawnwyd - dim ond dangos dealltwriaeth a gwybodaeth. Noder eto bod yr adran hon yn ymdrin ag ystod eang o ganlyniadau dysgu. Mae Atodiad 6 yn nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen o ganlyniadau dysgu ym mhob adran o'r portffolio.

Adroddiad y Mentor
Gofynnir i fentoriaid gyfrannu sylwadau yn yr adran hon ar ddatblygiad proffesiynol y dysgwr, gan adlewyrchu sut gallai'r anghenion datblygu a nodwyd yn Nhasg 1 adran a fod wedi newid dros gyfnod y rhaglen, a safbwynt presennol. Bydd adroddiad y Mentor yn rhoi tystiolaeth o'r Ymarfer Proffesiynol a gyflawnwyd wrth ddilyn llwybr y Dystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol sy'n cyfateb i 7,000 o eiriau

Rhestr gyfeiriadau
Disgwylir i'r dysgwr ddarparu rhestr gyfeiriadau o'r holl ddeunyddiau ffynhonnell a ddefnyddir o fewn y portffolio. Dylid dilyn canllawiau Harvard ar gyfer Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Manylion y dysgwr
Manylion y dysgwr, llofnodion a gwiriad y rheolwr llinell (a gwiriad gan weithiwr cymdeithasol cymwysedig os nad yw'r rheolwr llinell yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig).

Canllaw ar gyfer llofnod gwirio'r rheolwr llinell

- fel arfer ceir llofnod y rheolwr llinell neu uwch ymarferydd sy'n weithiwr cymdeithasol cofrestredig ag o leiaf 3 blynedd o brofiad ar ôl ymgymhwyso ac sy'n gyfarwydd â'ch rôl o ran gwaith diogelu.
- gall gadarnhau eich bod wedi bod yn gysylltiedig â'r achos y rhoddwyd tystiolaeth ohono yn nhasg 3 y portffolio.
- gall gadarnhau eich bod wedi bodloni'r holl feini prawf a restrir.
- os nad yw'r rheolwr llinell yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig yna mae'n rhaid i weithiwr cymdeithasol ag o leiaf 3 blynedd o brofiad ar ôl ymgymhwyso (y mentor os yw'n bosibl) neu uwch weithiwr cymdeithasol arall lofnodi yn ogystal.

Wrth lofnodi'r adran hon, rydych chi'n cadarnhau eich bod yn hapus â:

- lefel yr oruchwyliaeth a'r cymorth mentora a dderbyniwyd gan y dysgwr;
- y dysgu a'r datblygu a wnaed;
- y darllen a'r ymchwil personol a wnaed;
- lefel y wybodaeth a'r sgiliau a ddangoswyd;
- y ddealltwriaeth a ddangoswyd o'r Cod Ymarfer Proffesiynol a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol;
- gwerthoedd craidd y dysgwr;
- y gwaith a'r sylwadau y cyfeiriwyd atynt o fewn y portffolio, mai gwaith y dysgwr ei hun ydyw a'i fod yn seiliedig ar arfer cyfredol;
- bod sgiliau cofnodi cywir, cadarn, cydlynol a dadansoddol wedi'u cyflawni;
- Dylai'r rheolwr llinell wirio bod y dysgwr wedi bod yn gysylltiedig â diogelu.
- Adroddiad y mentor, a'i fod yn rhoi tystiolaeth o arsylwi ar yr Arfer Proffesiynol a gyflawnwyd wrth ddilyn llwybr y Dystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol sy'n cyfateb i 7,000 o eiriau.

Cytundeb dysgu rhwng y dysgwr a’r cyflogwr

Rhaid cwblhau'r cytundeb dysgu Dysgwyr a chyflogwyr o fewn 1 mis i ddechrau'r rhaglen a'i anfon at eich Cydlynydd/Rheolwr Hyfforddiant**. Rhaid cyflwyno copi o'r cytundeb i Turnitin hefyd fel rhan o'ch portffolio wedi'i gwblhau.**

ATODIAD 1:

Fframwaith Ymarfer Proffesiynol:
Datganiad Moesegol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol ar Ymchwil a dysgu seiliedig ar waith

Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol:
Datganiad Moesegol Arfer Proffesiynol ar Ymchwil a dysgu seiliedig ar waith

Diffinnir 'ymchwil' yn unrhyw ffurf ar ymholiad disgybledig sy'n anelu at gyfrannu i gorff o wybodaeth neu theori.
Cyfeiria 'moeseg ymchwil' at egwyddorion moesol sy'n arwain yr ymchwil, o'i ddechreuad i gwblhau a chyhoeddi canlyniadau a'r tu hwnt – er enghraifft, hyd y data a'r samplau ffisegol ar ôl cyhoeddi'r ymchwil. (ESRC, *Research Ethics Framework* t.7 dim dyddiad)

Mae gofyn i'r holl staff a'r ymgeiswyr gydymffurfio â gofynion a chanllawiau Cod Ymarfer Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Mae hyn yn wir am bob gwaith ymchwil ar gyfer unrhyw brosiect, traethawd ymchwil neu aseiniad unigol sy'n cynnwys elfen o ymchwil, boed ar gyfer graddau israddedig neu ôl-raddedig, ar gyfer erthygl cylchgrawn neu gyhoeddiad arall. Bydd modd i'r Cydlynydd Rhaglen neu'r Swyddog Moeseg Ymchwil roi cyngor i staff ac ymgeiswyr ar y canllawiau perthnasol. Os bydd angen, gofynnir i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol am gyngor.

Rhaid mynd i'r afael â'r egwyddorion sylfaenol hyn wrth gyflawni unrhyw weithgarwch ymchwil sy'n seiliedig ar waith:

- Cydymffurfio â phrotocol gan gynnwys Codau Ymarfer a Moeseg proffesiynol.*
- Gweithredu gydag uniondeb a thrin pobl yn deg wrth barchu annibyniaeth unigolion.
- Sicrhau dilysrwydd pob gwaith ymchwil trwy sicrhau gwaith digonol o ran adnabod, monitro, adolygu a chymeradwyo.
- Ymlyniad wrth brotocol cywir mewn achosion o ymchwil mewnol neu ymchwil ymarferydd lle mae'r ymchwilydd yn ymwneud neu'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r lleoliad ymchwil.

Rhaid i bob dysgwr ac aelod o'r staff gael caniatâd (i ddechrau, trwy ei Swyddog Moeseg Ymchwil/Cydlynydd Rhaglen) ynghylch yr agweddau moesegol hyn, cyn cyflawni unrhyw waith ymchwil, pa un a yw hynny'n cynnwys casglu data personol neu wneud defnydd o ffynonellau eraill.

* Ymchwil Seiliedig ar Waith

Yn ogystal â glynu wrth God Ymarfer y Brifysgol ynghylch Moeseg Ymchwil, mae'n hanfodol bod yr ymchwil hefyd yn glynu wrth bob Cod Ymarfer Proffesiynol a Phrotocolau Moesegol yn y gweithle.

ATODIAD 2:

DYFARNIADAU, TROSGLWYDDO CREDYDAU A DILYNIANT

Trosglwyddo i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Efallai y bydd modd i ddysgwyr unigol sydd wedi dysgu mewn sefydliadau eraill hawlio dysgu drwy brofiad blaenorol a thrwy hynny cael eu heithrio o rannau o'r rhaglen. Bydd hyn yn gyfyngedig. Bydd gan ddysgu ar gyfer tystysgrif dariff credydau y gellir ei drosglwyddo i sefydliadau Addysg Uwch eraill.

Dilyniant

Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn ennill Tystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol a gymeradwyir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Y credyd AU ar gyfer y dyfarniad hwn yw 60 credyd ar Lefel 6.

I ddysgwyr sydd am symud y tu hwnt i'r Dystysgrif Raddedig, mae'n bosibl astudio ar gyfer Tystysgrif Ôl-raddedig (60 credyd ar Lefel 7), Diploma Ôl-raddedig (120 credyd ar Lefel 7) neu MA mewn Arfer Proffesiynol yn rhan o'r Fframwaith Arfer Proffesiynol a ddilyswyd gan Goleg Prifysgol y Drindod (fel y'i gelwid ar y pryd) ym mis Rhagfyr 2008. Mae Achredu ar gyfer Dysgu drwy Brofiad Blaenorol (APEL) a Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol (APCL) ar gael yn rhan o'r Fframwaith Ymarfer Proffesiynol. *Dylai dysgwyr nodi, fodd bynnag, nad oes un o'r dyfarniadau dilyniant a ddisgrifir uchod yn rhan o Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) Gofal Cymdeithasol Cymru. Cynghorir dysgwyr i ystyried eu dewisiadau datblygu yn y dyfodol yn ofalus er mwyn sicrhau cysondeb â llwybr gyrfa gweithwyr cymdeithasol.*

Mae'r tabl canlynol yn dangos y Datganiad Cyflawniad a'r dyfarniad llawn sydd ar gael. Dylid nodi bod cyfleoedd dilyniant yn bodoli y tu hwnt i'r Dystysgrif Ôl-raddedig i Ddiploma Ôl-raddedig a Gradd Meistr:

Lefel	Datganiad Cyflawniad/ Dyfarniadau		Pwyntiau Dilyniant
7	Datganiad Cyflawniad (Trawsgrifiad Academaidd sy'n nodi'r modylau a maint y credydau)	lefel 7 <60 credyd	
7	Tystysgrif Ôl-raddedig	60 credyd	Uchafswm o 20 credyd ar lefel 6 a lleiafswm o 40 credyd ar lefel 7
7	Diploma Ôl-raddedig	120 credyd	Uchafswm o 30 credyd ar lefel 6 a lleiafswm o 90 credyd ar lefel 7
7	MA	180 credyd	Uchafswm o 30 credyd ar lefel 6 a lleiafswm o 150 credyd ar lefel 7

ATODIAD 3:

Partneriaeth Porth Agored

Mae 'Porth Agored' yn bartneriaeth o 12 Awdurdod Lleol yng Ngogledd a Gorllewin Cymru, a'r aelodau yw'r Awdurdodau Lleol yn y tabl isod. Dangosir hefyd y cyswllt cyfredol ar gyfer pob Awdurdod.

Authority	Contact Name	Telephone	Email
Swansea	Nia Walters Hannah Lockwood Toboline Mupita	01792 636111	nia.walters@swansea.gov.uk Hannah.Lockwood@swansea.gov.uk Toboline.Mupita@swansea.gov.uk
Ceredigion	Miriam Ennis	01545 572091	miriam.ennis@ceredigion.gov.uk
Powys	Claire Williams Tracy Rawbone	01686 614043	claire.turner@powys.gov.uk tracy.rawbone@powys.gov.uk
Gwynedd	Tonwen Davies Glenys Campbell Gill Paul Laybourne	01286 679070	tonwendavies@gwynedd.gov.uk glenyscampbell@gwynedd.gov.uk gillianpaul@gwynedd.llyw.cymru
Ynys Môn	Maria Jones Linette Gwilym	01248 752935	Maria.Jones@ynysmon.gov.uk LinetteGwilym@ynysmon.gov.uk
Conwy	Nia O'Marah Mared Pari	01492 575011	nia.omarah@conwy.gov.uk mared.pari1@conwy.gov.uk
Denbighshire	Kevin Jarvis Rosy Hughes	01824 706605	Kevin.Jarvis@denbighshire.gov.uk Rosy.J.Hughes@denbighshire.gov.uk
Flintshire	Carol Armstrong	01352 702661 07342 088532	carol_armstrong@flintshire.gov.uk
Wrexham	David Nulty Jodie Murphy	01979 292970	DaviDavid.Nulty@wrexham.gov.uk Jodie.Murphy@wrexham.gov.uk
Carmarthenshire	Mair Davies Gail Fletcher	01267 246736	MairDavies@carmarthenshire.gov.uk MGFletcher@carmarthenshire.gov.uk
Pembrokeshire	Annie Easton	01437 776086	anne-louise.easton@pembrokeshire.gov.uk
Neath Port Talbot	Angela Rees	01639 685271	a.rees@npt.gov.uk

Mae'r 12 Awdurdod Lleol yn gweithio mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ddarparu cymhwyster i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso er mwyn cyflawni 60 credyd ar lefel 6. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fydd yn dyfarnu'r cymhwyster.

ATODIAD 4

Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu Rhaglen Gadarnhau Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

Mae 3 uned o fewn y Rhaglen Gadarnhau a phob un yn cynnwys canlyniadau dysgu a meini prawf asesu.

Canlyniadau Dysgu'r Rhaglen Gadarnhau i Weithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso

Teitl	1. Dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
1.1 Deall sut y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chanllawiau fel sail i ymarfer asesu	1.1.1. Amlinellu'r fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chanllawiau sy'n sail i ymarfer asesu mewn gwaith cymdeithasol; 1.1.2. Gwerthuso'r berthynas rhwng ymarfer asesu a: • fframweithiau deddfwriaethol; • safbwyntiau damcaniaethol; • safonau; • canllawiau a phrotocolau; 1.1.3. Dadansoddi sut mae dulliau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn dylanwadu ar ymarfer a phrosesau asesu; 1.1.4. Dadansoddi sut mae ei ymarfer asesu yn cefnogi gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar ganlyniadau.
1.2 Gallu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac ar ganlyniadau, i wneud asesiadau amrywiol er mwyn hybu a chefnogi llesiant	1.2.1. Gweithio mewn ffordd gyfannol ac mewn partneriaeth â phobl i'w galluogi i nodi, egluro a mynegi eu cryfderau, eu hanghenion a'r canlyniadau y maent yn dymuno eu gweld; 1.2.2. Dangos wrth asesu bod gwerthoedd gwaith cymdeithasol, y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a Chanllawiau Ymarfer i weithwyr cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio; 1.2.3. Cynnwys sensitifrwydd at ddiwylliant ac iaith yn ei ymarfer gan gynnwys y cynnig rhagweithiol yng nghyswllt yr iaith Gymraeg; 1.2.4. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cynnal asesiad amlddisgyblaethol gan

	ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac ar ganlyniadau; 1.2.5. Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac ar ganlyniadau, i asesu: • cryfderau unigolyn; • anghenion unigolyn; • anghenion gofalwr; • eu hamgylchiadau; • risg a phosibiliadau rheoli risg. 1.2.6. Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn ffyrdd creadigol o: • nodi canlyniadau; • adeiladu ar gryfderau, gallu a chyflawniadau; • cael atebion; • sicrhau newid; • hybu llesiant.
1.3 Gallu cofnodi gwybodaeth asesu fel sail i wneud penderfyniadau.	1.3.1. Egluro sut y defnyddir gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi i gefnogi dadansoddi a gwneud penderfyniadau; 1.3.2. Cadw cofnodion ysgrifenedig ac electronig sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau presennol; 1.3.3. Dangos bod cofnodion asesu cywir, effeithiol, cydlynol a dadansoddol yn cael eu cwblhau; 1.3.4. Dadansoddi'r canlyniadau posibl mewn achosion lle nad oes cofnodion cywir, effeithiol, cydlynol a dadansoddol;
1.4 Gallu ffurfio barn broffesiynol ar sail gwybodaeth asesu	1.4.1. Dadansoddi gwybodaeth asesu amrywiol fel sail i farn broffesiynol; 1.4.2. Ffurfio barn broffesiynol am farn a dewisiadau unigolyn, ei anghenion, cryfderau, risgiau a ffactorau amddiffynnol; 1.4.3. Egluro sut mae ystyriaethau moesegol yn dylanwadu ar ein penderfyniadau; 1.4.4. Egluro'r sail resymegol dros ei farn broffesiynol ei hun; 1.4.5. Cyfiawnhau ei farn broffesiynol ei hun, sy'n ystyried: • barn a dewisiadau unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth; • dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd; • dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 1.4.6. Addasu ei farn broffesiynol ei hun os cyflwynir tystiolaeth newydd; 1.4.7. Defnyddio tystiolaeth ymchwil wrth ffurfio barn broffesiynol.
1.5 Gallu defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso ei ddadansoddiad ei hun mewn asesiadau gwaith	1.5.1. Defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso ymarfer personol dadansoddi mewn asesiadau gwaith cymdeithasol gan gynnwys: • gwneud llais yr unigolyn yn ganolog i'r asesiad; • ymarfer sy'n seiliedig ar werthoedd;

	• canolbwyntio ar effaith a chanlyniadau i'r unigolyn; • ymarfer moesegol gan gynnwys rheoli penblethau moesegol; • hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth; • cefnogi dewis iaith; • cefnogi cyfathrebu; • y fframwaith deddfwriaethol, polisïau a gweithdrefnau mewn gwaith cymdeithasol; • rhoi gwybodaeth yng nghyd-destun pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth mewn maes gwaith; • defnyddio tystiolaeth ymchwil berthnasol yn yr asesiad; • defnyddio Goruchwyliaeth a mentora er mwyn canfod anghenion datblygu eraill; • asesu risg; • sgiliau eraill a ddefnyddir wrth asesu. 1.5.2. Defnyddio gwerthusiad o ymarfer personol o ddadansoddi mewn asesiadau gwaith cymdeithasol i ganfod ei gryfderau ei hun a meysydd ar gyfer dysgu a datblygu; 1.5.3. Llunio ei gynllun dysgu a datblygu proffesiynol ei hun.
Cyfeirnod Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Cymdeithasol 2011 2 - Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio 4 - Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol 5 - Rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdaro 7 - Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl 12 - Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm 15 - Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb.
Diffiniad o'r termau	- Mae fframweithiau deddfwriaethol yn cynnwys y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sydd gyda'i gilydd yn diffinio cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr cymdeithasol mewn perthynas â maes ymarfer. - Dylai safonau gynnwys y Codau Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol. - Mae canllawiau yn cynnwys Y Gweithiwr Cymdeithasol – Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. - Mae ymarfer personol yn golygu ymarfer yr ymgeisydd.
Teitl	2. Cydweithio â phobl sy'n cael gofal a chymorth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill
Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn:	Gall y dysgwr:
2.1 Gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr	2.1.1 Baratoi yn llawn ar gyfer bod yn rhan o waith cymdeithasol; 2.1.2 Sefydlu trefniadau cydgynhyrchu a phartneriaeth fel sail i gyfathrebu effeithiol mewn amgylchiadau amrywiol; 2.1.3 Dangos defnydd o ddulliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau wrth ymgysylltu ag unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, a'u gofalwyr; 2.1.4 Gofyn am gymorth os nad yw'r gweithiwr yn gallu defnyddio'r dull cyfathrebu sy'n cael ei ffafrio; 2.1.5 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n ystyried dewis iaith a diwylliant; 2.1.6 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n dangos parch dyledus at oedran, ethnigrwydd, diwylliant, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd neu gred, dealltwriaeth ac anghenion; 2.1.7 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i helpu i reoli sefyllfaoedd lle mae trallod, gelyniaeth neu wrthwynebiad; 2.1.8 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i gadarnhau bod dymuniadau a dewisiadau unigolion gofalwyr wedi cael eu deall; 2.1.9 Adlewyrchu canlyniadau llesiant, barn, dewisiadau a theimladau unigolion a gofalwyr mewn cofnodion, gohebiaeth a chynlluniau; 2.1.10 Disgrifio sut mae eu harferion cyfathrebu wedi newid a datblygu ers cymhwyso.
2.2 Gallu gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a gweithwyr proffesiynol eraill	2.2.1 Egluro rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol gweithwyr proffesiynol eraill; 2.2.2 Cyfathrebu mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol; 2.2.3 Dangos y gallu i weithio mewn partneriaeth â phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a chymunedau; 2.2.4 Dangos parch tuag at sgiliau, arbenigedd a chyfraniadau cydweithwyr yn ei sefydliad ei hun a gyda gweithwyr proffesiynol eraill; 2.2.5 Cynnal rôl a swyddogaeth gwaith cymdeithasol a chael barn annibynnol; 2.2.6 Cymhwyso'r protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth: • o fewn ei sefydliad ei hun; • rhwng asiantaethau yng nghyd-destun gwaith amlasiantaeth.
2.3	2.3.1 Myfyrio'n feirniadol ar ei berfformiad ei hun wrth gydweithio, nodi meysydd

Myfyrio'n feirniadol ar ei gydweithio ei hun	ymarfer da a rhai i'w datblygu, yn ystod gwaith gyda: • phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth; • gofalwyr; • eiriolwyr; • cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.
Cyfeirnod Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Cymdeithasol 2011 6 - Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol 8 - Paratoi ar gyfer ymgysylltiad gwaith cymdeithasol 9 - Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol 10 - Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu 11 - Eirioli ar ran pobl eraill 12 - Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm 15 - Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb..
Diffiniad o'r termau	Mae dulliau cyfathrebu yn cynnwys: • cyfathrebu geiriol; • cyfathrebu di-eiriau; • ieithoedd gwahanol; • defnyddio symbolau; • cyfathrebu ysgrifenedig. Gall cymunedau gynnwys: Grwpiau neu sefydliadau cymunedol ac eraill sy'n cael eu hystyried yn bwysig gan y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol Gall gweithwyr proffesiynol eraill gynnwys: Meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, plismyn, athrawon, cyfreithwyr, staff tai, eiriolwyr, gweithwyr gofal cymdeithasol eraill neu weithwyr cymdeithasol.
Teitl	3. Ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
3.1. Deall y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru	3.1.1 Werthuso sut mae polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau yn sail i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys: • y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i faes gwasanaethau cymdeithasol; • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion; • diogelu data a rhannu gwybodaeth; • cydsynio a datgelu. 3.1.2 Amlinellu'r rhyngwyneb rhwng y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng

	Nghymru a'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol: • yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig; • yn yr Undeb Ewropeaidd; • y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.
3.2. Gallu rheoli ei rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth	3.2.1. Nodi'r ffactorau a allai gynyddu cymhlethdod mewn gwaith cymdeithasol; 3.2.2. Gwerthuso sut y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, tystiolaeth ymchwil, modelau ar gyfer ymyrryd, safonau a chanllawiau fel sail i'w ymarfer ei hun wrth ymdrin â sefyllfaoedd cynyddol gymhleth; 3.2.3. Ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol o fewn ffiniau proffesiynol, cyfreithiol a sefydliadol mewn sefyllfa gymhleth; 3.2.4. Dangos dyfalbarhad a phendantrwydd mewn ymyriadau mewn sefyllfa gymhleth; 3.2.5. Negodi gyda phobl eraill er mwyn dod i benderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth; 3.2.6. Gwneud argymhellion a phenderfyniadau amserol o fewn ffiniau ei gyfrifoldebau mewn sefyllfa gymhleth; 3.2.7. Gwneud cynlluniau wrth gefn i ragweld ac ymateb i newid mewn amgylchiadau mewn sefyllfaoedd cymhleth; 3.2.8. Defnyddio goruchwyliaeth a mentora i ystyried a rheoli ymyriadau a barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth; 3.2.9. Myfyrio'n feirniadol ar ei berfformiad ei hun mewn sefyllfaoedd cymhleth er mwyn: • adnabod meysydd ymarfer da; • nodi meysydd ymarfer y mae angen eu datblygu; • datblygu a chryfhau gwytnwch personol.
3.3. Deall rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion sydd mewn perygl.	3.3.1 Egluro polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol sy'n ymwneud â diogelu oedolion; 3.3.2 Deall y fframwaith cyfreithiol sy'n gysylltiedig â diogelu oedolion; 3.3.3 Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod oedolyn mewn perygl o gael niwed, neu o gael ei esgeuluso neu ei gam-drin; 3.3.4 Disgrifio dangosyddion esgeuluso, cam-drin neu niwed i oedolion; 3.3.5 Egluro pwysigrwydd sefydlu canlyniadau a ffefrir yr ymyriad diogelu ar gyfer: • pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth; • gofalwyr.

3.4. Deall rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol yng nghyswllt diogelu plant sydd mewn perygl	3.4.1. Egluro polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol sy'n ymwneud â diogelu plant sydd mewn perygl; 3.4.2. Deall y fframwaith cyfreithiol sy'n gysylltiedig â diogelu plant sydd mewn perygl; 3.4.3. Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod plentyn mewn perygl o gael niwed, neu o gael ei esgeuluso neu ei gam-drin; 3.4.4. Disgrifio dangosyddion esgeuluso, cam-drin neu niwed i blant; 3.4.5. Egluro pwysigrwydd sefydlu'r canlyniadau a ffefrir yr ymyriad diogelu ar gyfer plant, teuluoedd a gofalwyr ag anghenion cymorth.
3.5. Gallu ymarfer y rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol mewn ymyriadau diogelu	3.5.1. Cynnal asesiad, gydag eraill, yn ymwneud â diogelu oedolyn neu blentyn. Wrth wneud hyn bydd yn: • gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol, sefydliadol a phroffesiynol; • canolbwyntio ar y sawl sydd mewn perygl; • ymarfer pendantrwydd proffesiynol wrth wneud penderfyniadau proffesiynol. 3.5.2. Cyfrannu tuag at gynllun cymorth ac ymyriad ar gyfer oedolyn neu blentyn; 3.5.3. Cyfrannu tuag at y gwaith o werthuso ymyriadau diogelu.
3.6. Gallu cyfrannu tuag at brosesau cyfreithiol o fewn cylch gorchwyl gwaith cymdeithasol proffesiynol	3.6.1. Egluro rôl a chylch gorchwyl prosesau cyfreithiol mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl; 3.6.2. Dadansoddi rôl y gweithiwr cymdeithasol mewn prosesau cyfreithiol yng nghyswllt: • plant; • oedolion. 3.6.3. Cyfrannu barn broffesiynol i asesiad mewn achos a allai fod â phrosesau cyfreithiol; 3.6.4. Cyfrannu barn broffesiynol i adroddiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer prosesau cyfreithiol.
3.7. Gallu ymarfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth	3.7.1. Crynhoi gofynion atebolrwydd proffesiynol gweithwyr cymdeithasol; 3.7.2. Cymhwyso'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a Chanllawiau Ymarfer mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth; 3.7.3. Defnyddio goruchwyliaeth a chanllawiau i fyfyrio'n feirniadol ar: • atebolrwydd proffesiynol; • datblygiad proffesiynol. 3.7.4. Cwblhau cofnodion ac adroddiadau cywir, effeithiol, cydlynol a dadansoddol o ymyriadau gwaith cymdeithasol sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol; 3.7.5. Dilyn gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau diogelwch personol yn y rôl broffesiynol.

Cyfeirnod Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Cymdeithasol 2011 2 - Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio 3 - Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol 4 - Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol 5 - Rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdaro 6 - Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol 7 - Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl 8 - Paratoi ar gyfer ymgysylltiad gwaith cymdeithasol 9 - Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol 10 - Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu 11 - Eirioli ar ran pobl eraill 12 - Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm 13 - Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth 14 - Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy 15 - Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb 16 - Cytuno ar gynlluniau lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth 17 - Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid 18 - Cael mynediad at adnoddau i gynorthwyo canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn 19 - Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol
`Diffiniad o'r termau	Rhaid i fframweithiau deddfwriaethol gynnwys: • Deddfwriaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt galluedd meddyliol, oedolion, plant a theuluoedd; • Y Ddeddf Hawliau Dynol; • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; • Deddfwriaeth Cydraddoldeb; • Iechyd a Diogelwch. Darparu gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys: • maes gwaith cymdeithasol penodol; • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion; • diogelu data a rhannu gwybodaeth; • cydsynio a datgelu.

	Dylai'r safonau gynnwys y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a Chanllawiau Ymarfer i weithwyr cymdeithasol Bydd polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol yn cynnwys: • canllawiau cenedlaethol; • polisïau a gweithdrefnau diogelu; • cyfrinachedd; • gwaith amlasiantaeth; • cofnodi; • rhyddid gwybodaeth a diogelu data. Mae Eraill yn golygu gweithwyr proffesiynol eraill a fyddai'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr eraill sy'n gysylltiedig ag asesiadau sy'n ymwneud â diogelu. Mae Prosesau Cyfreithiol yn cynnwys: • prosesau a allai arwain at achos llys neu achos cyfreithiol arall; • ymchwiliadau neu ymyriadau a gynhelir o fewn proses gyfreithiol ddiffiniedig (e.e. diogelu neu wasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl). Mae atebolrwydd proffesiynol i'r canlynol: • y cyflogwr; • corff rheoleiddio; • pobl ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr; • tîm amlddisgyblaethol; • gwaith cymdeithasol fel proffesiwn.

ATODIAD 5:

Rhaglen Gyfnerthu
Porth Agored – Gweithdai Tystysgrif Graddedigion

Cefndir
Mae'r rhaglen yn cynnal sesiwn gynefino a 4 gweithdy gorfodol dros gyfnod rhaglen gyfnerthu'r Dystysgrif Raddedig. M

Mae strwythur glir wedi'i chynllunio ar gyfer pob gweithdy i sicrhau ymagwedd gyson at y brif wybodaeth a roddir ac a archwilir ym mhob sesiwn. Mae hyn yn caniatáu i ddysgwyr ymuno â sesiwn yn unrhyw un o'r meysydd partneriaeth.
Mae gweithdai wedi'u cynllunio i ddilyn pob adran o'r portffolio a darparu'r cyfle i ddysgwyr adeiladu portffolio o waith ac archwilio themâu, yn ogystal â darparu lle ar gyfer cymorth cyfoedion ac adfyfyrio ar ymarfer.

Fformat
Cyflwyniad PowerPoint yn cwmpasu'r prif themâu.
Gwerslyfrau gydag ystod o ymarferion gwaith unigol a grŵp.
Rhoddir tasgau hunanddysgu ar ddiwedd pob gweithdy sydd i'w cwblhau erbyn y sesiwn nesaf e.e. ymchwil, darllen, gwylio fideos ayb.

Strwythur y Gweithdai – Trosolwg Cryno

- **Gweithdy 1 –** Cyflwyniad, adfyfyrio'n ymarferol – gan ailedrych ar fodelau adfyfyrio - adfyfyrio beirniadol, ysgrifennu adfyfyriol beirniadol a deallusrwydd emosiynol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Cyflwyniad i Adolygu Datblygiad (Tasg 1) rhan a.

- **Gweithdy 2 –** Arsylwi ar waith (Tasg 2). Cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys gwerthoedd, moeseg a dangos tystiolaeth o'r Cod Ymarfer Proffesiynol. Archwilio dulliau a sgiliau cyfathrebu. Y cyd-destun Cymreig a thrafodaeth o'r modd mae'r portffolios yn cysylltu â darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Arsylwi wrth ymarfer (Tasg 2).

- **Gweithdy 3 –** Diogelu (Tasg 3) yn cynnwys archwiliad o ddeddfwriaeth, polisi a gweithdrefn berthnasol, dadansoddi wrth asesu, gwneud penderfyniadau proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth a sut y dylai'r dasg hon fodloni'r deilliannau dysgu a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

- **Gweithdy 4 –** Tasg 4 diogelu mewn maes nad yw'n prif faes i chi a'r gwahaniaethau rhwng diogelu Plant ac Oedolion. Tasg 1 – Adolygu Datblygiad Task 1 (rhan b). Meini prawf marchnata, SGC a deilliannau dysgu, prosesau cyflwyno. Sesiwn un i un gyda hyfforddwr/hwylusydd am gyngor, cymorth ac arweiniad.

Gweithdy 1:
Cyflwyniad ac Adolygu Datblygiad – Tasg 1 **Amcanion:** • Cyflwyniad i strwythur y gweithdai, gofynion y llawlyfr/ portffolio a rôl y mentor. Cyflwyniad i 3 Chanlyniad Dysgu GCC: - Dadansoddi wrth asesu, cydweithio a gwneud penderfyniadau proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. • Tasg 1 rhan (a) gofyniad – cysylltiadau ag ymarfer fel ymarferydd myfyriol beirniadol • Ail-ymweld â theorïau a modelau o fyfyrio • Y portffolio – Tasg 1 Rhan (a) Adolygiad Datblygiadol a sut mae hwn yn cysylltu â chanlyniadau dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru • Dealltwriaeth emosiynol • Ysgrifennu myfyriol beirniadol. **Myfyrio Beirniadol mewn Ymarfer** • Yn cynnwys: Myfyrio mewn ymarfer, deallusrwydd emosiynol, defnyddio modelau myfyriol, sut i ddefnyddio myfyrio mewn ysgrifennu myfyriol beirniadol, ac archwilio syniadau mwy cymhleth ynghylch ymarfer myfyriol. **Tasg 1 – Adolygu Datblygiad – rhan a** **Amcanion:** Cyflwyniad i adolygu datblygiad rhan a Mae dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau er mwyn archwilio ac adfyfyrio ar eu datblygiad proffesiynol hyd yn hyn a'u nodau datblygu dros gyfnod y rhaglen, a chreu cynllun dysgu a datblygu proffesiynol sy'n ystyried: • Yr hyn sy'n bwysig i gefnogi dysgu yng nghyswllt gwaith cydweithredol, asesu, ac atebolrwydd a gwneud penderfyniadau proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth (3 deilliant dysgu). • Goruchwyliaeth, ymchwil, hyfforddiant ac unrhyw angen datblygiadol arall yn ymwneud â hyn.

Gweithdy 1:
Tasg 2 – Arsylwi ar Waith **Tasg hunan-astudio ar gyfer Gweithdy 2** • Ymchwil ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (SSWBA) a deddfwriaeth/polisi diogelu. • Trafod aseiniad arsylwi achos priodol posibl o ymarfer gyda'r mentor. **Nodau:** • Cynyddu dealltwriaeth o gyflawni ac ysgrifennu tasg 2, arsylwi ymarfer • Ystyried ystyr cydweithio, cyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth • Datblygu dealltwriaeth o ddimensiynau o weithio yng Nghymru a sut i ddangos tystiolaeth o hyn yn y portffolio • Datblygu gwybodaeth o ymarfer beirniadol a sut mae'n cysylltu â gwerthoedd, moeseg a dulliau cyfathrebu. • Adeiladu gwybodaeth o sut i ddangos tystiolaeth o ganlyniad dysgu Gwasanaethau Gofal Cymru (SCW); cymhwyso dadansoddi mewn asesu i lywio ymyriadau, cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn y portffolio. **Cydweithio a Chyd-gynhyrchu** **Nodau:** • Datblygu gwybodaeth o'r cyd-destun ar gyfer gwaith cydweithredol/cyd-cynhyrchu. Gan gynnwys; deddfwriaeth berthnasol, ystyriaethau moesegol, newid cymdeithasol, adnabod anghydraddoldeb a deinameg pŵer, ymarfer gwrth-wahaniaethol/ymarfer gwrth-ormesol (ADP/AOP). • Datblygu sgiliau, gwybodaeth a strategaethau ar gyfer gwaith cydweithredol/cyd cynhyrchu. • Deall sut i ddangos tystiolaeth y canlyniad dysgu: Gweithio'n cydweithredol gyda phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. • Archwilio'r hyn y mae ymchwil yn dweud wrthym am sut mae unigolion yn gweld gweithwyr cymdeithasol a'r hyn y maent ei angen/disgwyl gan wasanaethau. **Cyd-destun Cymreig** • Myfyrio'n feirniadol ar y 4 clip fideo "Mae na geiriau". • Ystyried: ystod o esiamplau mewn perthynas ag anghenion iaith ac arfer sy'n sensitif yn ddiwylliannol. • Adlewyrchu ar brofiad personol pam fod yn rhaid i iaith fod yn rhan annatod o ddarpariaeth asesu a gwasanaethau, egwyddorion y "Cynnig Gweithredol". • Myfyrio'n feirniadol ar dimensiwn penodol o weithio yng Nghymru, gan gynnwys heriau a wynebir yn y Sector Gwasanaethau Gofal yng Nghymru. • Dangos dealltwriaeth o leoliad daearyddol, diwylliant, sefydliadau ac ieithoedd a siaradir.

Gweithdy 3:
Tasg 3 – Diogelu – Astudiaeth achos ym mhrif faes gwaith y dysgwr Amcanion: • Egluro gofynion yn ymwneud â'r aseiniad diogelu gan gynnwys sut i gwrdd â chanlyniadau dysgu gofynnol Gwasanaethau Gofal Cymru (SCW) ar gyfer Tasg 3. • Archwilio'r fframwaith ddeddfwriaethol mewn perthynas â diogelu oedolion/plant. • Myfyrio'n feirniadol ar rai o'r tensiynau a'r gwrthdaro potensial y gallai gweithwyr cymdeithasol ddod ar eu traws wrth wneud gwaith diogelu. • Diogelu a deddfwriaeth sy'n cysylltu â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru a deddfwriaeth allweddol arall. • Cysylltiadau o asesiadau/diogelu â'r canlyniadau dysgu (gan gynnwys; Iechyd Meddwl, Deddf Plant, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, Mesurau'r Gymraeg ac ati). • Archwilio dimensiynau o weithio yng Nghymru • Archwilio gwahaniaeth ac amrywiaeth mewn perthynas ag arfer gwrth-ormesol a gwrth-wahaniaethol. • Cyfeirio at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'i rhyngwyneb â'r DU, yr Undeb Ewropeaidd a'r tu allan i'r UE. • Byrddau diogelu. • Theorïau gwaith cymdeithasol a sut i ddangos tystiolaeth o hyn yn y portffolio. • Myfyrio ar weithio gyda chymhlethdodau a gwneud penderfyniadau proffesiynol.

Gweithdy 4:
Tasg 1 – rhan b – Adolygiad Datblygiadol **Nodau:** • Egluro gofynion Tasg 4 – Diogelu mewn maes nad yw'n prif faes gwaith i chi • Archwilio dealltwriaeth o ddealltwriaeth/polisi ar lefel cenedlaethol/lleol/sefydliadol wrth ddiogelu oedolion/plant. • Adnabod a myfyrio ar rai o'r pethau tebyg a gwahanol rhwng gwaith cymdeithasol diogelu gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl. • Tasg 1 rhan b) • Cysylltiadau â chynllunio datblygiad Proffesiynol. • Myfyrio ar datblygiad proffesiynol ers cwblhau tasg 1- rhan a, gan gynnwys cyfeirio at; hyfforddiant, dysgu, ymchwil a'r defnydd o oruchwyliaeth. Adnabod anghenion dysgu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datblygiad proffesiynol yn y dyfodol. • Ailymweld â modelau myfyrio. • Ystyried datblygiad proffesiynol mewn perthynas â'r adborth gan bobl sydd angen gofal a chymorth a/neu eu gofalwyr. **Cwblhau'r Portffolio** • Meini Prawf Marcio a chysylltiadau â chanlyniadau dysgu a safonau galwedigaethol cenedlaethol (NOS). • Awgrymiadau ar gyfer cyflwyniad llwyddiannus. • Cyfrinachedd a Llên-ladrad. • Y Broses Gyflwyno. • Materion a phryderon sydd heb eu datrys. **Sesiynau unigol gyda hyfforddwr/hwylusydd ar gyfer arweiniad a chyngor ar waith portffolio.**

DISGRIFYDD Y MODIWL

NODYN BWYSIG YNGHYLCH DIWEDDARIADAU I ADNODDAU

Mae'r rhestr ddarllen yn y disgrifiad Modwl canlynol wedi'i chopïo o'r ddogfen raglen swyddogol gyhoeddedig bresennol. Mae Rhestrau Darllen yn 'ddangosol' ac nid ydynt bob amser yn adlewyrchu fersiynau mwyaf cyfredol yr adnoddau. Bydd y rhestrau darllen Leganto a ddarperir gan llyfrgell PCYDDS fel arfer yn cynnwys fersiynau mwy cyfredol o adnoddau, ond – os oes unrhyw amheuon gennych – dylech wirio'n uniongyrchol gyda'r Llyfrgell a/neu eich Rheolwr Rhaglen am yr adnoddau mwyaf cyfredol.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26, mae'n arbennig o bwysig eich bod yn nodi bod fersiwn newydd o'r adnoddau ***LIC Mwy na Geiriau / More than Just Words*, Caerdydd: LIC**, a diweddarwyd yn 2022 ar gael. Yn ogystal â chysylltu â'r Llyfrgell am gopi o hwn, gallwch gael mynediad iddo drwy'r ddolen (https://www.llyw.cymru/mwy-na-geiriau-adroddiad-blynyddol-2022-2023).

Cod y Modwl	**BMPF6044C**
Teitl	**Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol**
Dyddiad	**08/12/2021**
Lefel	**6**
Credydau	**60**
Rhagofynion	

AMCAN(ION)

- Cefnogi'r gwaith o bontio o weithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso i ymarferydd profiadol ac adeiladu ar y dysgu a gafwyd yn ystod y radd gwaith cymdeithasol ac ar ôl cymhwyso.
- Rhoi cyfleoedd i ymarfer a rhoi tystiolaeth o sgiliau allweddol, gan gynnwys y rheini na fu fawr o gyfle i roi tystiolaeth ohonynt yn y lleoliad dysgu seiliedig ar waith.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos cymhwysedd o ran:

- Dadansoddi wrth asesu er mwyn hysbysu ymyriadau.
- Gweithio'n gydweithredol gyda phobl sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Ymyrraeth a chymhwyso dyfarniad proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth.

CYNNWYS DANGOSOL

- Mae'r modwl yn rhaglen astudio bwrpasol sy'n seiliedig ar y fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus ac mae'n cynnwys deilliannau sy'n berthnasol yn broffesiynol a ddiffinnir ac a gyfiawnheir yn unigol.
- Bydd y gwaith yn cynnwys trosolwg dadansoddol o'r farn gyfredol ynghylch fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chyfarwyddyd, a ddefnyddir i hysbysu arferion asesu. Bydd dysgwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfleoedd dysgu er mwyn gallu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ar ddeilliannau wrth gyflawni amrywiaeth o asesiadau ac er mwyn gallu cofnodi gwybodaeth asesu i hysbysu penderfyniadau. Byddant yn gallu gwneud dyfarniadau proffesiynol ar sail gwybodaeth asesu a defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso eu dadansoddi eu hunain mewn asesiadau gwaith cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth.
- Bydd gwerthusiad cynhwysfawr o ddulliau cyfathrebu yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, a sefydlu cyd-gynhyrchu a phartneriaeth fel sail ar gyfer cyfathrebu effeithiol mewn ystod o wahanol amgylchiadau. Bydd myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith cydweithredol yn elfen hanfodol o gyfathrebu.
- Bydd y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chyfarwyddyd a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei thrafod a'i dadansoddi. Bydd archwiliad o foeseg gwaith cymdeithasol, sydd â phwyslais arbennig ar werthoedd penodol sy'n sail i'r foeseg honno, ac sy'n sicrhau darpariaeth o safon uchel ac yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r unigolyn, yn cael ei ymchwilio

a'i ddangos ar y lefel briodol. Disgwylir i ddysgwyr ddangos ymwybyddiaeth feirniadol o'r rôl waith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion a phlant, gan reoli ar yr un pryd eu rôl fel gweithwyr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth. Rhoddir tystiolaeth o'r gallu i arfer y rôl waith cymdeithasol broffesiynol mewn ymyriadau diogelu a'u cyfraniad i brosesau cyfreithiol o fewn cylch gwaith y gweithiwr cymdeithasol proffesiynol a'r Cod Ymarfer Proffesiynol.

- Yn unol â Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus: Fframwaith ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru (Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gadarnhau) © (Chwefror 2019) Cyngor Gofal Cymru. Rhaid i'r portffolio arddangos gallu dysgwr i:
- Deall sut mae fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chyfarwyddyd yn cael eu defnyddio i hysbysu ymarfer asesu
- Defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac ar ddeilliannau i gynnal ystod o asesiadau i hyrwyddo a chefnogi llesiant
- Cofnodi gwybodaeth asesiadau i hysbysu gwneud penderfyniadau
- Gwneud dyfarniadau proffesiynol yn seiliedig ar wybodaeth asesiadau
- Defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso'i ddadansoddi'i hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol
- Cyfathrebu'n effeithiol â phobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr
- Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a gweithwyr proffesiynol eraill
- Myfyrio'n feirniadol ar ei waith cydweithredol ei hun
- Deall y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chyfarwyddyd a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru
- Rheoli'ch rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth
- Deall y rôl waith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion sydd mewn perygl
- Deall y rôl waith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu plant sydd mewn perygl
- Arfer y rôl waith cymdeithasol broffesiynol mewn ymyriadau diogelu
- Cyfrannu i brosesau cyfreithiol o fewn cyfrifoldebau gwaith cymdeithasol proffesiynol
- Arfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	**Oriau**	**Canran**
Dysgu wedi'i amserlennu	120	20%
Dysgu'n annibynnol	120	20%
Dysgu drwy leoliadau	360	60%
CYFANSWM	**600**	**100%**

ASESU

Dyrennir 100% o'r marc asesu terfynol i Bortffolio sy'n benodol i'r Modwl - 8,000 o eiriau yn cynnwys tystiolaeth o Ymarfer Proffesiynol a goruchwyliaeth ac arsylwi proffesiynol

- Mae rhifau'r tasgau yn cyfateb i'r manylion penodol ym Mhortffolio'r Dysgwr ar gyfer Rhaglen Gadarnhau Porth Agored.
- Mae pob elfen yn orfodol a rhaid ei phasio.
- Mae'r gweithgareddau/gweithredoedd/meysydd/adrannau sydd heb eu nodi'n benodol yma yn rhan o'r elfen Goruchwyliaeth Broffesiynol orfodol.

Elfen Asesu 1
(Ticiwch un)

☐ **Arholiad ysgrifenedig** ☒ **Gwaith cwrs** ☐ **Ymarferol**

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Adolygu Datblygiad a Myfyrio ar Ddatblygiad	1500 o eiriau (Tasg 1 y Portffolio, rhan A (750 o eiriau) a B (750 o eiriau))	20%

Elfen Asesu 2
(Ticiwch un)

☐ **Arholiad ysgrifenedig** ☒ **Gwaith cwrs** ☐ **Ymarferol**

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Myfyrio Beirniadol	1600 o eiriau (Tasg 2 y Portffolio)	20%

Elfen Asesu 3
(Ticiwch un)

☐ **Arholiad ysgrifenedig** ☒ **Gwaith cwrs** ☐ **Ymarferol**

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Astudiaeth Achos o ddiogelu, asesu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth	4000 o eiriau (Tasg 3 y Portffolio)	50%

Elfen Asesu 4
(Ticiwch un)

☐ **Arholiad ysgrifenedig** ☒ **Gwaith cwrs** ☐ **Ymarferol**

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Diogelu	900 o eiriau (Tasg 4 y Portffolio)	10%

Sylwer:

1. Rhaid bod Elfen Asesu 3 wedi'i seilio ar eich maes gwaith eich hun ond rhaid i Elfen Asesu 4 ymwneud â maes nad yw'n brif ffocws i chi h.y. os mai diogelu plant yw'ch prif faes gwaith (Tasg 3), rhaid i Elfen 4 ymwneud â diogelu oedolion, ac i'r gwrthwyneb os ydy 3 yn ymwneud ag oedolion. Mae Elfen Asesu 4 hefyd yn cynnwys angen i gymharu trefniadau rhwng diogelu oedolion a diogelu plant.

2. Wrth ysgrifennu Elfennau Asesu 3 a 4, gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio'n briodol at nodweddion ac anghenion Cymru, ei hieithoedd, ei diwylliant, ei daearyddiaeth a'i sefydliadau a deddfwriaeth. Mae Atodiad 5 yn rhoi gwybodaeth i chi ynghylch pa ddeilliannau dysgu y mae angen rhoi tystiolaeth ohonynt yn y portffolio.

3. Mae cyflwyno adroddiad Mentor ynghyd â gwiriad Rheolwr Llinell yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cyflwyniad. Bydd methu â chynnwys adroddiad Mentor wedi'i lofnodi ynghyd â gwiriad Rheolwr Llinell yn arwain at fethu'r rhaglen. Bydd adroddiad y Mentor ynghyd â gwiriad y Rheolwr Llinell yn darparu tystiolaeth o Ymarfer Proffesiynol a goruchwyliaeth ac arsylwi proffesiynol sydd wedi'u cyflawni wrth ddilyn llwybr y Dystysgrif Raddedig mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, sydd yn cyfateb i 7,000 o eiriau. Fel arfer bydd arsylwadau'n cael eu cynnal yn bersonol, ond lle mae cyfyngiadau iechyd a diogelwch ar waith, gellir cynnal arsylwadau o bell (e.e. Zoom/MS Teams neu dros y ffôn. Nid yw'r elfen hon yn dwyn unrhyw farciau ond mae'n un o ofynion y PSRB (Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio).

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	**Canran**
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	**100%**

Mae'r modwl hwn yn cydymffurfio â'r deilliannau dysgu a nodwyd yn *Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus*: *Fframwaith ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru (Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gadarnhau)* (Chwefror 2019) Gofal Cymdeithasol Cymru, sef gofynion diffiniol Gofal Cymdeithasol Cymru.

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Cod y Modwl	**BMPF6044C**	
Teitl y Modwl	**Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol**	
Categori	**Eitemau'r Rhestr Ddarllen**	**Electronig***
Hanfodol	Fel yn briodol ar gyfer yr arbenigedd pwnc.	☐
Pellach	Adams, R., Dominelli L. and Payne, M. (2017) *Social Work: Themes, Issues and Critical Debates*, Basingstoke: Palgrave McMillan.	☐
Pellach	Brammer, A. (2009) *Social Work Law (Fourth edition)*, London: Longman.	☒
Pellach	Cocker, C. and Allain, L. (eds.) (2011) *Advanced social work with children and families*, Exeter: Learning Matters.	☐
Pellach	Crawford, K. (2012) *Interprofessional Collaboration in Social Work Practice*, London: Sage.	☐
Pellach	Davies, L. and Nora, D. (2016) *Proactive child protection and social work*, Exeter: Learning Matters.	☒
Pellach	Hothersall, S. and Maas-Lowit, M. (2010) *Need, Risk and Protection in Social Work Practice*, Exeter: Learning Matters.	☒
Pellach	Howe, L, Gray, I (2013) *Effective Supervision in Social Work*. Exeter: Learning Matters	☐
Pellach	Knott, C. and Scragg, T. (2007) *Reflective Practice in Social Work* (Third Edition), Exeter: Learning Matters.	☒

Cod y Modwl	BMPF6044C	
Teitl y Modwl	Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Pellach	Koprowska, J. (2010) *Communication and Interpersonal Skills in Social Work* (Fourth Edition), Exeter: Learning Matters. (2nd edition available online 2008)	☐
Pellach	Lawrence, S., Lyons, K., Simpson, G. and Huegler, N. (2009) *Introducing International Social Work*, Exeter: Learning Matters.	☒
Pellach	Lindsay, T (2013) *Social Work Intervention*. Exeter: Learning Matters	☐
Pellach	Mantell, A. (ed.) (2014) *Social Work Skills with Adults*, Exeter: Learning Matters.	☒
Pellach	Mantell, A. (2013) *Skills for Social Work Practice.* Exeter: Learning Matters	☐
Pellach	Marting, R (2011) *Social Work Assessments*. Exeter: Learning Matters	☐
Pellach	Mathews, I. and Crawford, K. (2011) *Evidence-based Practice in Social Work.* Exeter: Learning Matters.	☐
Pellach	Morris, K (ed.) (2008) *Social Work and Multi-Agency Working – Making a difference*, Bristol: The Policy Press.	☐
Pellach	O'Loughlin, M. and O'Loughlin S. (2008) *Social work with children and families (Second edition)*, Exeter: Learning Matters.	☐
Pellach	Parker, J., Bradley, J. and Bradley, G. (2017) *Social Work Practice – Assessment, Planning, Intervention and Review (Fifth Edition)*, Exeter: Learning Matters.	☐
Pellach	Rutter, L. and Brown, K. (2015) *Critical thinking and professional judgement for social work, (Fourth Edition)*, Exeter: Learning Matters.	☐
Pellach	Schön, D., (2017) *The Reflective Practitioner: How Professionals Think in Action*, New York: Basic Books.	☒
Pellach	Scragg, T. and Mantell, A. (eds.). (2011) *Safeguarding adults in social work,* Exeter: Learning Matters. (2nd Edition)	☐
Pellach	Teater, B. (2014) *An Introduction to Applying Social Work Theories and Methods*, *(Second Edition),* Maidenhead: Open University Press.	☒
Pellach	Warren, J. (2003) *Service User and Carer Participation in Social Work,* Buckingham: Open University Press.	☐
Pellach	Whittaker, A. (2012) *Research Skills for Social Work*, Exeter: Learning Matters. 2009 Ed available online 2012 is 2nd Ed.	☐
Pellach	Journals SCIE (Social Care Institute for Excellence): http://www.scie.org.uk/ British Journal of Social Work: http://bjsw.oxfordjournals.org/ Gofal Cymdeithasol Cymru / Social Care Wales: https://socialcare.wales/ **Social Care Wales Resources** https://socialcare.wales/resources/	☒

Cod y Modwl	BMPF6044C	
Teitl y Modwl	Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
	Davies C. Different Words Different Worlds? https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Different-Words-Different-Worlds.pdf 'They all speak English anyway'. CD available from learner's training unit or directly through Social Care Wales website: https://socialcare.wales/ (Getting in on the act hub) *Raising Standards: The Qualification Framework for the Social Care Sector in Wales* (CCfW, 2005). Social Services and Well Being (Wales) Act 2014	
Pellach	Legislation and Policy LLC (2012) Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol, Caerdydd: CLI. WG (2012) National Assembly for Wales (Official Languages) Act, Cardiff: WG. Government of Wales Act 2006. *Making the Connections: Delivering Better Services for Wales* (WAG, 2004) https://socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/making-the-connections-delivering-better-public-services-for-wales *Fulfilled Lives, Supportive Communities* (WAG, 2007). https://socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/fulfilled-lives-supportive-communities-a-strategy-for-social-services-in-wales-over-the-next-decade WG (2012) *Mwy na Geiriau / More than Just Words*, Cardiff: WG. Social service well-being (Wales) 2014 Well-being of Future Generations (Wales) Act (2015) Welsh Language Measures (Wales) 2011	☒

Efallai y bydd deunyddiau ychwanegol ar gael ar Moodle ac argymhellir darllen pellach yng nghyswllt meysydd eraill penodol sydd i'w hastudio.